Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd

Mawrth 2026

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
X: **@SeneddCyllid**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd

Mawrth 2026

Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru



Sam Rowlands AS
Ceidwadwyr Cymreig

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd 8

Argymhellion a Chasgliadau 10

1. Craffu ar y Gyllideb 14

Proses y Gyllideb 14

Barn y Pwyllgor 19

Materion parhaus a nodwyd yn ystod gwaith Craffu ar y Gyllideb 22

Barn y Pwyllgor 26

Datblygu Sgiliau Llythrennedd Ariannol a Chyllidol 27

Barn y Pwyllgor 28

2. Trethi Cymru 30

Adolygiad Statudol o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 30

Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru 31

Datganoli Pwerau Trethu Ymhellach 33

Barn y Pwyllgor 35

3. Ymchwiliadau'r Pwyllgor 36

Trefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE 36

Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol 36

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol 38

Barn y Pwyllgor 39

4. Deddfwriaeth 41

Goblygiadau Ariannol Biliau 41

Barn y Pwyllgor 45

Craffu ôl-ddeddfwriaethol 46

Barn y Pwyllgor 48

Ymgysylltu â'r Cyhoedd 48

Barn y Pwyllgor 49

5. Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol 51

Datganiad o Egwyddorion 51

Barn y Pwyllgor 53

Newid Gweithdrefnau Cyllideb Atodol 54

Barn y Pwyllgor 55

Comisiwn y Senedd 55

Barn y Pwyllgor 63

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 64

Barn y Pwyllgor 66

Archwilio Cymru 67

Barn y Pwyllgor 69

6. Penodiadau Cyhoeddus 70

Penodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru 70

Penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 72

Penodi'r Archwilydd Cyffredinol 73

Trefniadau Tâl 74

Barn y Pwyllgor 75

7. Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid 78

Cyfarfodydd y Fforwm 78

Adroddiad Gwaddol....79

Barn y Pwyllgor....80

Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar....81

Atodiad 2 : Gwaith wedi'i gwblhau....82

Atodiad 3 : Penodiadau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru y Chweched Senedd....86

Atodiad 4 : Swyddi gwag a ddisgwylir ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn y Seithfed Senedd....88

Y Pwyllgor yn y Chweched Senedd



FAINT O GYFARFODYDD PWYLLGOR FFURFIOL A GYNHALIWYD? **121**



FAINT O DYSTION A RODDODD DYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR? **256**



FAINT O DDIGWYDDIADAU/ YMWELIADAU Â RHANDDEILIAID A GYNHALIWYD? **4**



FAINT O FILIAU A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR? **24**



FAINT O ADRODDIADAU A GYNHYRCHWYD? **69**



FAINT O YMATEBION I YMGYNGHORIADAU A GAFWYD? **436**

Craffu ar gyllidebau yn ystod y Chweched Senedd

Yn ystod y Chweched Senedd, craffodd y Pwyllgor ar y canlynol:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYLLIDEBAU DRAFFT LLYWODRAETH CYMRU **5**

CYLLIDEBAU ATODOL LLYWODRAETH CYMRU **10**

Gwnaeth y Pwyllgor gyfanswm o **269** o argymhellion yn dilyn gwaith craffu ar Gyllidebau Drafft ac Atodol Llywodraeth Cymru.

CYLLIDEBAU DRAFFT COMISIWN Y SENEDD	AMCANGYFRIFON GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU	AMCANGYFRIFON GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
5	**5**	**5**

Rhagair y Cadeirydd

Yn ystod y Chweched Senedd, mae gwaith ein Pwyllgor wedi bod yn seiliedig ar y gred bod goruchwyliaeth gadarn o wariant cyhoeddus yn hanfodol ar gyfer effeithiolrwydd democratiaeth Cymru, ac rwy'n falch o'r cyfraniadau a wnaed gennym.

Lluniodd y Pwyllgor gyfres o adroddiadau arwyddocaol sy'n adlewyrchu hyd a lled ein rôl graffu. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru a'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, gan gynnwys Comisiwn y Senedd yn ystod cyfnod o newid sylweddol wrth iddo baratoi ar gyfer ehangu, yn ogystal â chraffu ar oblygiadau ariannol Biliau a gyflwynwyd i'r Senedd.

Roeddem hefyd yn gyfrifol am arwain y broses benodi ar gyfer rolau amlwg ym mywyd cyhoeddus Cymru: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2022 ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2026. Mae hyn yn ychwanegol at nifer o ymarferion recriwtio i benodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol y tymor seneddol. Mae cyfrifoldeb sylweddol ynghlwm â'r prosesau hyn i sicrhau bod pob penodiad yn cael ei gynnal drwy brosesau teg, tryloyw a thrylwyr, ac rwy'n falch ein bod wedi cwrdd â'r heriau hynny.

Yn ogystal, cynhaliwyd ymchwiliadau rhagweithiol, mewn meysydd strategol allweddol, gan gynnwys Trefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE, Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol a Chyfalaf Trafodiadau Ariannol, i daflu goleuni ar feysydd sy'n aml yn gymhleth a lle mae diffyg tryloywder. Mae'r rhain wedi ein galluogi i ragweld materion sy'n dod i'r amlwg a chryfhau ein dealltwriaeth o feysydd polisi hollbwysig.

Rydym hefyd wedi cyfrannu at waith rhyngseneddol ehangach Cymru drwy Fforwm y Pwyllgor Cyllid Rhyngseneddol, sydd wedi cyhoeddi ei adroddiad gwaddol ei hun yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cydweithio hwn wedi ein helpu i rannu arfer da a chydweddu dulliau craffu â chymheiriaid mewn deddfwrfeydd datganoledig eraill. Mae hefyd wedi ein helpu i ddeall ble mae safle Cymru yn nhirwedd llywodraethu ariannol ehangach ledled y DU.

Wrth edrych yn ôl, rwy'n falch o'r diwydrwydd, y proffesiynoldeb, a'r cydweithio trawsbleidiol sydd wedi bod yn rhan annatod o'n gwaith. Mae'r Pwyllgor wedi ymdrechu'n gyson i wella prosesau craffu, gwella tryloywder, a hyrwyddo gwybodaeth ariannol well i'r Aelodau a'r cyhoedd. Gobeithiwn y bydd yr

ymdrechion hyn yn cefnogi ein holynwyr i adeiladu ar y sylfaen hon yn y Seithfed Senedd.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor drwy gydol tymor y Senedd hon. Mae'r ddealltwriaeth, yr arbenigedd a'r profiad byw maent wedi'u rhannu wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio ein dealltwriaeth ni o'r materion sydd o'n blaenau.



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Argymhellion a Chasgliadau

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol a'r Seithfed Senedd ehangu cyfleoedd ar gyfer craffu ariannol y tu hwnt i gyfnod y gyllideb, gan gynnwys craffu ar bolisi treth, adolygiadau gwariant, gwaith ar dueddiadau'r dyfodol a chynlluniau buddsoddi mawr..... Tudalen 20

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol barhau i wahodd y Prif Economegydd i gyflwyno adroddiadau economaidd a chyllidol cyn y Gyllideb Ddrafft ac archwilio cyfleoedd i'w cyhoeddi'n gynharach er mwyn cynorthwyo â dadleuon y Pwyllgor ar Flaenoriaethau ar gyfer y Gyllideb cyn toriad yr haf. ..... Tudalen 20

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Senedd nesaf flaenoriaethu adolygiad llawn o Brotocol y Gyllideb a phrosesau cyllideb ehangach, gan gynnwys sut y gellir ystyried unrhyw newidiadau i sut y gellir ystyried polisïau a rheoliadau treth, er mwyn sicrhau bod trefniadau craffu yn wydn, yn amserol ac yn addas ar gyfer deddfwrfa fwy o faint. ..... Tudalen 21

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol:

- yn gweithredu dull amlochrog wrth gasglu tystiolaeth i lywio ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru; ac
- yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid i lywio dadl flynyddol ar flaenoriaethau'r gyllideb yn y Cyfarfod Llawn cyn toriad yr haf ym mhob cylch cyllideb. ..... Tudalen 22

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol yn parhau i fonitro dull Llywodraeth Cymru o ddangos sut y mae'n blaenoriaethu dyraniadau a rhaglenni sy'n ataliol ac yn gwella cynhyrchiant..... Tudalen 27

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth nesaf Cymru yn datblygu ac yn gweithredu cynllun clir ar gyfer cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd ar draws yr adrannau, gan gynnwys dulliau i fonitro cynnydd a gwerthuso effaith..... Tudalen 27

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i wella'r sail dystiolaeth i'r Senedd allu deall yr effeithiau y mae penderfyniadau a wneir yng Nghyllideb Cymru yn debygol o'u

cael ar wahanol grwpiau mewn dogfennaeth, megis yr Asesiad Effaith Integredig Strategol..... Tudalen 27

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr i Aelodau o'r Senedd i helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd cyllidol, megis deall sut mae cyllid y llywodraeth, trethiant a phenderfyniadau gwariant yn effeithio ar yr economi a bywydau unigolion, ar ddechrau tymor y Senedd ac yn barhaus drwy gydol y tymor. .....Tudalen 29

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth nesaf Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w bwyllgor olynol ar ddatblygiadau sy'n ymwneud â chynigion ar gyfer treth Tir Gwag, a datganoli pwerau trethu incwm eiddo, erbyn mis Medi 2026.....Tudalen 35

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn sicrhau na ddylid gorlwytho cylch gwaith ei bwyllgor olynol er mwyn caniatáu ar gyfer cynnal ymchwiliadau polisi cyllid rhagweithiol rheolaidd. .....Tudalen 39

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cynyddu aelodaeth ei bwyllgor olynol i wella gwydnwch yn erbyn cyfarfodydd heb gworwm, lleddfu pwysau presenoldeb, cryfhau'r capasiti ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu allanol, ac y dylid ystyried cydbwysedd rhywedd priodol fel rhan o'i gyfansoddiad. .....Tudalen 39

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion a nodir yn ei adroddiadau ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol, Cyfalaf Trafodiadau Ariannol a Threfniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE..... Tudalen 40

Argymhelliad 13. Gan adeiladu ar ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y pwyllgor cyfrifol yn ystyried cynnal adolygiad o effeithiolrwydd Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth yn ystod y Seithfed Senedd.....Tudalen 46

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol barhau i fonitro perfformiad ariannol deddfwriaeth ar ôl ei gweithredu ac ystyried pwysigrwydd adolygiadau ôl-weithredu o ran craffu ar oblygiadau ariannol Biliau er mwyn sicrhau bod Deddfau'n cyflawni eu hamcanion datganedig ac yn rhoi gwerth am arian.....Tudalen 48

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio'r Ombwdsmon yn y Seithfed Senedd adolygu'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn dilyn yr adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. ..... Tudalen 48

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol ystyried ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'i randdeiliaid i gefnogi gwaith ymgysylltu ehangach a gwneud gwaith craffu'r pwyllgor yn fwy cynhwysol. ..... Tudalen 50

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol barhau i adolygu'r Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn rheolaidd. ..... Tudalen 53

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn annog ei bwyllgor olynol i fod yn ymwybodol o'r galw cronnus ar Gronfa Gyfunol Cymru wrth ystyried y ceisiadau unigol am gyllid gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol. ..... Tudalen 53

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol weithio i adolygu gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol fel y maent yn berthnasol i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, gan sicrhau bod y ceisiadau cymesur a godwyd yn ystod y Chweched Senedd yn cael sylw a bod y diffygion gweithdrefnol a nodwyd yn cael eu datrys. ..... Tudalen 55

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd ymgysylltu â'n pwyllgor olynol a Grwpiau'r Pleidiau cyn toriad yr haf a chyn cyhoeddi ei Gyllideb Ddrafft, ac yn annog y dylai'r dull effeithiol hwn gael ei ailgyflwyno ar ôl yr etholiad. ..... Tudalen 63

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd sicrhau bod strwythurau cadarn ar waith i gefnogi proses bontio ddidrafferth ar ddechrau tymor nesaf y Senedd, gan ddiogelu gwydnwch sefydliadol a chadw arbenigedd. ..... Tudalen 64

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol fod â rôl ddiffiniedig mewn perthynas â chraffu ar brosiect Bae Caerdydd 2032, ac y dylai Comisiwn nesaf y Senedd roi diweddariadau rheolaidd am ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r prosiect, gan gynnwys unrhyw effeithiau cyllidebol, ac y dylai'r Comisiwn barhau i fynd i sesiynau tystiolaeth gyhoeddus ar y prosiect, ar gais. ..... Tudalen 64

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol yn parhau i fonitro'r gwaith a wneir gan yr Ombwdsmon mewn ymateb i'r argymhellion a

wnaed yn dilyn yr adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru..... Tudalen 66

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol archwilio'r materion a nodwyd yn y gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ochr yn ochr â datblygiadau yn ystod y Chweched Senedd, er mwyn ystyried pa opsiynau a allai fod ar gael i fynd i'r afael â'r materion hynny a'u datrys..... Tudalen 69

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r pwyllgor olynol gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod y prosesau recriwtio ar gyfer penodiadau i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn y Seithfed Senedd yn parhau i ddenu ymgeiswyr o safon uchel o amrywiaeth o gefndiroedd.....Tudalen 76

Argymhelliad 26. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol barhau i gynnal gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru pan fydd y penodiad nesaf yn digwydd..... Tudalen 77

Argymhelliad 27. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol weithio gyda chymheiriaid yn y deddfwrfeydd datganoledig eraill i ailsefydlu Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid ac adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. .....Tudalen 80

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y ddadl flynyddol ar Flaenoriaethau'r Gyllideb yn gam allweddol ym mhroses y gyllideb yn y Senedd ac y dylid parhau i'w chynnal yn flynyddol cyn toriad yr haf..... Tudalen 20

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod craffu manwl ar oblygiadau ariannol Biliau'r Senedd yn hanfodol ac y dylai barhau i fod yn un o arferion y pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd.....Tudalen 46

Casgliad 3. Gan adeiladu ar brofiad y Pwyllgor o benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'r Pwyllgor o'r farn bod ymgysylltu ag asiantaeth chwilio am staff gweithredol yn ffordd briodol ac effeithiol o sicrhau proses recriwtio o safon.....Tudalen 76

1. Craffu ar y Gyllideb

Proses y Gyllideb

Proses Dau Gam y Gyllideb

1. Yn ystod y Chweched Senedd, bu'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn pwysleisio dro ar ôl tro effaith amserlenni cywasgedig ar graffu ar y gyllideb, pan na chaiff Cyllideb Llywodraeth Cymru ei chyhoeddi tan ar ôl Cyllideb yr Hydref y DU. Cylch gyllideb 2026-27[1] oedd yr unig un yn ystod y Chweched Senedd a gynhaliwyd yn unol â'r broses ddau gam a nodir ym Mhrotocol Proses y Gyllideb (y Protocol).[2] Mae cylchoedd cyllideb eraill wedi dilyn y broses a nodwyd ar gyfer blynyddoedd eithriadol.

2. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw flaenoriaethau na phenderfyniadau newydd yng Nghyllideb Ddrafft "niwtral" eleni, felly nid oedd yn gyllideb "normal" ychwaith. Arweiniodd hyn at y Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet) ddod i sesiwn yn syth ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol i drafod y newidiadau a wnaed ers cyfnod y Gyllideb Ddrafft.[3]

3. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cyllideb Ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2026-27 yn nodi byddent yn "myfyrio ar y broses eleni, yn enwedig yr elfen dau gam, wrth inni ystyried sut i ymdrin â'r Gyllideb y flwyddyn nesaf".[4]

4. Wrth fyfyrio ar amseriad cyllideb Llywodraeth Cymru yn ystod y Senedd hon, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"... it's often been a real challenge to lay a draft budget in October without knowing what the Chancellor's thinking is going to be at that point of the year. You have always, I think, argued for the Welsh Government to declare its hand early, and I suppose, from a Government's point of view, there's always an anxiety that you'll have one set of plans, and then a few weeks later you're going to have to tear them up and—. Well, not tear them up, but they will be significantly amended, and in that*

[1] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 1 Gorffennaf 2025
[2] Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, 21 Mehefin 2017
[3] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Graffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, 23 Ionawr 2026
[4] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Graffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, 23 Ionawr 2026

> *sense, we probably would rather wait to see the context we're in, and you'd rather we went earlier than that."*[5]

5. O ran amserlen craffu ar gyllideb y Senedd, cwestiynodd yr Ysgrifennydd Cabinet y ddadl na ellir defnyddio wythnosau yn y toriad ar gyfer craffu, gan nodi bod Aelodau o'r Senedd yn parhau i weithio yn ystod y toriad.[6]

6. Awgrymodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y gellid llunio Adroddiad Economaidd a Chyllidol Llywodraeth Cymru cyn yr haf.[7]

Adolygu Protocol Proses y Gyllideb

7. Argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd y dylid sefydlu grŵp annibynnol i adolygu'r broses bresennol ar gyfer cytuno ar y gyllideb "fel mater o flaenoriaeth".[8] Roedd hyn yn cydnabod penderfyniad Llywodraeth y DU i gael un digwyddiad cyllidol blynyddol[9] yn yr hydref, sef amserlen sy'n debygol o ddigwydd ar ôl y pwynt y byddai'r Protocol fel arfer yn disgwyl i Lywodraeth Cymru osod ei Chyllideb Ddrafft Amlinellol.[10] Yn aml, roedd hyn yn peryglu'r amser a oedd ar gael i'r Senedd graffu ar y Gyllideb Ddrafft.

8. Mae'r patrwm hwn wedi parhau drwy gydol y Senedd hon. Ar draws y pum cylch craffu, mae'r Pwyllgor wedi codi pryderon yn gyson ynghylch effaith amserlenni craffu cywasgedig pan fydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi ar ôl Cyllideb yr Hydref y DU.

9. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn trafod cyfres o ohebiaeth ag Ysgrifenyddion y Cabinet dros Gyllid olynol, gan geisio sicrhau addasiadau cymedrol i'r Protocol yn y tymor byr, gyda'r bwriad o baratoi'r ffordd ar gyfer diwygiadau mwy sylweddol yn y tymor hwy.[11]

10. Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw gynnydd o ran adolygu'r Protocol yn ystod tymor y Senedd hon. Yn ei ohebiaeth ddiweddaraf ar y mater, nododd yr

[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 22
[6] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 23
[7] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 55
[8] Y Pwyllgor Cyllid Adroddiad gwaddol y Bumed Senedd, Mawrth 2021, Argymhelliad 8
[9] Llywodraeth y DU, News story - The new Budget timetable: 7 things you need to know, Tachwedd 2016 [Saesneg yn unig]
[10] Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Adolygiad o Brotocol Proses y Gyllideb

Ysgrifennydd Cabinet y byddai'n fwy priodol i'r Senedd newydd a Llywodraeth Cymru "lunio trefniadau ar gyfer y Senedd newydd mwy o faint".[12]


Ymgysylltiad y Gyllideb

11. Gan barhau â gwaith ei Bwyllgor a'i ragflaenodd, mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â gwaith yn y Senedd hon i gryfhau gwaith cyn craffu ac ymgysylltu er mwyn lliniaru'r effaith yn sgil amser craffu cyfyngedig. Mae hyn wedi cynnwys adeiladu ar waith craffu yn ystod y cyfnod gosod blaenoriaethau yn yr haf.

12. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal digwyddiad blynyddol i randdeiliaid, gan ymweld â Phrifysgol Bangor yn 2025, Canolfan S4C yr Egin yng Nghaerfyrddin yn 2024, Prifysgol Glyndŵr yn Wrecsam yn 2023 a Sefydliad Glowyr Llanhiledd ger Abertyleri yn 2022.

13. Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar gyfranogwyr o ymgysylltu â'r cyhoedd, gan sicrhau bod trawstoriad eang o gymdeithas Cymru yn cyfrannu at y gwaith o graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r dull hwn wedi helpu gyda dealltwriaeth y Pwyllgor o flaenoriaethau cyhoeddus gan roi cipolwg o dueddiadau sy'n newid ymysg barn pobl ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

14. Cafodd y gwaith ymgysylltu ei gynllunio i gyrraedd ystod eang o gynulleidfaoedd, gan gynnwys pobl sydd â phrofiad o feysydd polisi penodol a grwpiau na chlywir yn aml fel pobl hŷn, pobl anabl, a phobl ifanc.



[12] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 18 Tachwedd 2025


Uchafbwyntiau o'r Chweched Senedd

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Pwyllgor wedi ymgysylltu â phobl ledled Cymru mewn sesiynau tystiolaeth a sioeau haf, a thrwy drefnu grwpiau ffocws i ddeall sut mae penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn effeithio arnynt.





















15. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal sesiynau galw heibio yn Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae unigolion yn ei feddwl y dylid ei flaenoriaethu yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru.

16. Ymgysylltodd y Pwyllgor ag Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru mewn gwahanol ffyrdd yn ystod y Senedd hon. Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cynnal gweithdy gydag Aelodau o'r Senedd Ieuenctid i drafod lle dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwariant yn y flwyddyn ariannol nesaf.

17. Fodd bynnag, yn ystod cylch Cyllideb 2025-26 nid oedd y Senedd Ieuenctid mewn sesiwn. Yn hytrach na'r gweithdy arferol, gwahoddodd y Pwyllgor bobl ifanc i gymryd rhan mewn grŵp ffocws dinasyddion arbennig, a hwyluswyd gan y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, i gasglu barn pobl ifanc.

18. Yn ystod cylch Cyllideb 2026-27, cytunodd y Pwyllgor hefyd i wahodd Aelodau o'r Senedd Ieuenctid i ddod i drafodaeth anffurfiol gyda'r Pwyllgor a'r Ysgrifennydd Cabinet yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Hydref 2025.[13]

19. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y gwaith ymgysylltu a wnaed gan y Pwyllgor wir yn werthfawr ac wedi helpu i lywio ei broses gwneud penderfyniadau.[14]

20. Mae'r materion a godwyd yn y digwyddiadau rhanddeiliaid, grwpiau ffocws, trafodaethau gydag Aelodau o'r Senedd Ieuenctid a thrafodaethau gydag unigolion yn sioeau'r haf i gyd yn bwydo i adroddiad cryno a dadl Blaenoriaethau Cyllideb ym mis Gorffennaf.

21. Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn y dylai'r Seithfed Senedd fabwysiadu'r ddadl ar Flaenoriaethau'r Gyllideb cyn gwyliau'r haf:

> *"... you've probably already had your first round of bilaterals with all your colleagues, and you are about to have a second round, in which you agree work that's to be done over the summer to prepare for the draft budget early in the autumn. It's a very good point in the process to have that early sighting through a Finance Committee debate on what the emerging priorities*

[13] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 16 Hydref 2025
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2025, paragraff 21

> *are, a sense check of what this budget is going to have to respond to and so on."*[15]

22. Mae wedi dod yn arfer safonol bod yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Prif Economegydd yn dod i gyfarfod y Pwyllgor pan fydd oedi cyn cyhoeddi Cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi myfyrio'n aml ar ddefnyddioldeb y sesiynau hyn:

> "*Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch bod y Gweinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Prif Economegydd Llywodraeth Cymru, wedi bod yn bresennol yn y Pwyllgor ddiwedd mis Medi i drafod materion a themâu a gododd o weithgareddau ymgysylltu haf y Pwyllgor a'r cyd-destun economaidd presennol."*[16]

23. Dull arall y mae'r Pwyllgor yn ei ddefnyddio i geisio barn rhanddeiliaid ar eu blaenoriaethau ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru yw drwy ymgynghoriad ysgrifenedig. Dros gyfnod tymor y Senedd hon mae nifer yr ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor wedi codi o 26 yn 2021-22[17] i uchafbwynt o 77 yn 2025-26[18].

Barn y Pwyllgor

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai Cyllideb Ddrafft 2026-27 oedd yr unig gylch cyllideb yn nhymor y Senedd hon a gynhaliwyd yn unol â'r broses dau gam a nodir yn y Protocol, gyda chylchoedd cyllideb eraill yn dilyn y broses a nodir ar gyfer blynyddoedd "eithriadol", gan arwain at gyhoeddi Cyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn ystod y Chweched Senedd wedi'i wneud yn bennaf o fewn amserlenni cywasgedig, sydd wedi ei gwneud hi'n heriol i bwyllgorau a rhanddeiliaid y Senedd sy'n dymuno ymgysylltu â'r broses.

25. Credwn fod y camau rhagweithiol a gymerwyd gan y Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd i wneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael ar gyfer craffu wedi mynd rywfaint o'r ffordd i liniaru'r pwysau hyn. Rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu arloesol a phoblogaidd ac wedi parhau i gynnal ein dadl flynyddol ar Flaenoriaethau'r Gyllideb cyn gwyliau'r haf, yn ogystal â'n hymarfer

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2025, paragraff 20
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, tudalen 18
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Ymgynghoriad: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22
[18] Y Pwyllgor Cyllid, Ymgynghoriad: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

ymgynghori ysgrifenedig. Mae'r rhain wedi bod yn hanfodol wrth roi cyfle i sefydliadau a'r cyhoedd yn gyffredinol lywio a dylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol y llywodraeth.

26. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymateb cadarnhaol gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch dadl flynyddol y Pwyllgor ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu'r cadarnhad bod amseriad y ddadl yn sicrhau y gallai unrhyw faterion a godir gan Aelodau ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, a byddem yn annog ein pwyllgor olynol i sicrhau bod y ddadl hon yn parhau i fod yn elfen allweddol o gylch y gyllideb.

27. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal sesiynau tystiolaeth y tu allan i'r cyfnod craffu ffurfiol ar y gyllideb drwy gynnal sesiynau cyn y gyllideb gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a sesiynau briffio technegol gyda Phrif Economegydd Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi canfod bod y sesiynau hyn yn ddefnyddiol, yn enwedig o ystyried y pwysau ehangach ar y broses craffu ar y gyllideb, ac mae'n credu y gellid eu hehangu yn y Seithfed Senedd i gwmpasu meysydd fel Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth nesaf Cymru, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, cynlluniau buddsoddi cyfalaf ac Adolygiadau Gwariant Cymru.

28. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi canfod bod cyhoeddi Adroddiadau Economaidd a Chyllidol Cymru gan y Prif Economegydd yn werthfawr wrth ddeall y cyd-destun ariannu a'r heriau cyllidol tymor hwy y mae Cymru a'r DU yn eu hwynebu. Mae'r Pwyllgor yn croesawu awgrym yr Ysgrifennydd Cabinet y gellid cyhoeddi'r adroddiad hwn yn gynharach yn y flwyddyn, er mwyn llywio'r ddadl ar Flaenoriaethau'r Gyllideb ym mis Gorffennaf. Byddai hynny'n ddatblygiad cadarnhaol ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd y ddadl yng nghalendr seneddol Cymru.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y ddadl flynyddol ar Flaenoriaethau'r Gyllideb yn gam allweddol ym mhroses y gyllideb yn y Senedd ac y dylid parhau i'w chynnal yn flynyddol cyn toriad yr haf.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol a'r Seithfed Senedd ehangu cyfleoedd ar gyfer craffu ariannol y tu hwnt i gyfnod y gyllideb, gan gynnwys craffu ar bolisi treth, adolygiadau gwariant, gwaith ar dueddiadau'r dyfodol a chynlluniau buddsoddi mawr.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol barhau i wahodd y Prif Economegydd i gyflwyno adroddiadau economaidd a chyllidol cyn y Gyllideb Ddrafft ac archwilio cyfleoedd i'w cyhoeddi'n gynharach er mwyn

cynorthwyo â dadleuon y Pwyllgor ar Flaenoriaethau ar gyfer y Gyllideb cyn toriad yr haf.

29. Er ei bod yn siomedig y bu oedi o ran y cynnydd wrth adolygu proses y gyllideb ac na chytunwyd ar unrhyw newidiadau ffurfiol i'r Protocol yn ystod y Senedd hon, rydym yn croesawu ymgysylltiad yr Ysgrifennydd Cabinet a'i ragflaenydd ar y materion hyn. Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol y dylid sefydlu grŵp annibynnol i adolygu'r broses bresennol ar gyfer cytuno ar y gyllideb "fel mater o flaenoriaeth". Credwn yn gryf y dylai Llywodraeth Cymru a'r Senedd gyda'i gilydd fwrw ymlaen ag unrhyw gamau i ddatblygu proses newydd y gyllideb ar gyfer Senedd fwy o faint.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Senedd nesaf flaenoriaethu adolygiad llawn o Brotocol y Gyllideb a phrosesau cyllideb ehangach, gan gynnwys sut y gellir ystyried unrhyw newidiadau i sut y gellir ystyried polisïau a rheoliadau treth, er mwyn sicrhau bod trefniadau craffu yn wydn, yn amserol ac yn addas ar gyfer deddfwrfa fwy o faint.

30. Mae'r Pwyllgor yn unfrydol bod ei ddull amlochrog o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi chwarae rhan annatod wrth lywio ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

31. Credwn fod ein gwaith ymgysylltu yn ystod y Chweched Senedd, gan gynnwys ein rhaglen grwpiau ffocws flynyddol, wedi helpu i sefydlu dull unigryw o ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ac yn darparu enghraifft o ymgysylltu uniongyrchol gan ddinasyddion wrth graffu ar y gyllideb. Mae hyn yn nodedig o ystyried y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig fel arfer â chraffu ar gyllidebau, sy'n aml yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymgysylltu'n ystyrlon â'r cyhoedd.

32. Gan edrych at y Seithfed Senedd, byddem yn gofyn i'n holynydd barhau â'r dull hwn a, lle bo'n briodol, edrych ar ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl Cymru wrth i dechnoleg a thueddiadau esblygu. Yn benodol, byddem yn annog ein holynydd i gomisiynu rhaglen ymgysylltu flynyddol a nodi ffyrdd eraill o weithio gyda'r Senedd Ieuenctid i adeiladu ymhellach ar ei rôl o fewn y cylch cyllideb.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol:

- yn gweithredu dull amlochrog wrth gasglu tystiolaeth i lywio ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru; ac

- yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid i lywio dadl flynyddol ar flaenoriaethau'r gyllideb yn y Cyfarfod Llawn cyn toriad yr haf ym mhob cylch cyllideb.

Materion parhaus a nodwyd yn ystod gwaith Craffu ar y Gyllideb

33. Yn ystod gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor wedi ystyried yn rheolaidd y materion trawsbynciol a strategol a grynhoir isod.

Camau ataliol

34. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i symud arian i gyfeiriad ataliol.[19] Fodd bynnag, mae hefyd wedi cyfeirio at wariant ataliol fel cysyniad dyrys[20] a bod modd ystyried bron popeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn ataliol.[21]

35. Ar ôl craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd) i gytuno ar ddiffiniad wedi'i ddiweddaru o'r hyn a olygir gan wariant ataliol.[22]

36. Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor ei fod wedi gweithio gyda nifer o gyrff cyhoeddus i roi'r diffiniadau ar waith, a deall ble mae'r heriau a ph'un a ellir eu gwella.[23] Ychwanegodd y Dirprwy Gomisiynydd fod y diffiniad yn hawdd iawn i'w ddefnyddio.[24]

37. Dywedodd y Comisiynydd, wrth drafod atal fel maes, eu bod yn dal i fod ar eu gwannaf wrth ystyried penderfyniadau cyllidebol a symud tuag at fwy o fuddsoddiad ym maes atal.[25]

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 71
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 159
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 71
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2025, tudalen 85
[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 70
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 76
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 15

Cynhyrchiant

38. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynhyrchiant yn yr Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru a gyhoeddwyd ganddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26.[26]

39. Yn ystod gwaith craffu ar Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"... productivity...is a shared responsibility across the Welsh Government. It isn't the budget alone that drives a focus on productivity. But in my discussions with my Cabinet colleagues, I was clear, I hope, in saying to them that I would put some additional priority on spending proposals where there was a productivity gain there to be demonstrated."*[27]

40. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y rhan fwyaf o dymor y Senedd hon wedi bod yn gyfnod o atgyweirio ac adfer yn sgil Brexit, COVID a chwyddiant. Esboniodd fod hyn wedi ei gwneud hi'n anoddach mynd i'r afael â'r agenda atal a chynhyrchiant gan ei fod wedi bod yn delio â chanlyniadau'r digwyddiadau hynny.[28]

Cyllidebu ar sail rhywedd

41. Mae'r Pwyllgor wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb rhywedd drwy gydol y Senedd hon i gynorthwyo â'i waith craffu ar benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru.

42. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion ynghylch cyhoeddi tri chynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd dros dymor y Senedd hon[29], y cyhoeddwyd y gwerthusiadau ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2026-27.[30]

43. Nododd Llywodraeth Cymru chwe argymhelliad polisi o ganlyniad i'r cynlluniau peilot, a nododd fod Grŵp Cyllideb Menywod Cymru yn "bartner hanfodol" yn y gwaith. O ran y camau nesaf, dywedodd Llywodraeth Cymru:

---

[26] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024, Hydref 2025
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2026, paragraff 75
[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 32
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, tudalen 9
[30] Llywodraeth Cymru, Cyllidebu ar Sail Rhywedd ar Waith, Tachwedd 2025

> *"Ni fyddwn yn cynnal rhagor o gynlluniau peilot ar hyn o bryd. Yn hytrach, rydym am roi pwyslais ar gadarnhau'r dysgu, meithrin capasiti a sefydlu cyllidebu ar sail rhywedd yn rhan o wead y llywodraeth."*[31]

44. Mynegodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru eu siom bod y gwaith parhaus i ymgorffori cwestiynau am gyllidebu ar sail rhywedd o fewn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn adrannau Llywodraeth Cymru wedi'i ohirio.[32] Mae'r Pwyllgor wedi annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru i ymwreiddio cyllidebu ar sail rhywedd wrth wneud penderfyniadau cyllidol yn y dyfodol, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o sut y mae'r penderfyniadau cyllidebol hyn yn effeithio ar fenywod.[33]

45. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

> *"We are committed to embedding gender budgeting. We published what we've learned from the first trials at the draft budget, and we are considering now how we take gender budgeting further in the work we will do in the future."*[34]

46. Trafododd yr Ysgrifennydd Cabinet y dylai'r Senedd nesaf benderfynu a oes angen newid dull o ran cyllidebu ar sail rhywedd, a dywedodd:

> *"... what we should be focusing on now is embedding the lessons from what we've done, rather than going on just learning more lessons. The lessons, I think, are that you can use gender budgeting to disaggregate data, that you can bring more analytical focus on it if you have a concentration on it, and that you can therefore move your consideration of gender impacts earlier in the policy-making process than you otherwise would."*[35]

[31] Llywodraeth Cymru, Cyllidebu ar Sail Rhywedd ar Waith, Tachwedd 2025
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i ymgynghoriad: Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Rhagfyr 2025, tudalen 96
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 175
[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 74

Asesiad Effaith Integredig Strategol

47. Cafodd y Gyllideb Ddrafft ei hategu gan Asesiad Effaith Integredig Strategol gyda'r nod o "archwilio'r effeithiau posibl a gaiff ein penderfyniadau gwario ar gydraddoldeb, cynaliadwyedd a llesiant".[36]

48. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod wedi defnyddio'r Asesiad Effaith gan ddweud:

> *"It looks at the decisions you've made and asks, 'What are the impacts these decisions will have on different parts of the population, and how do decisions made in one part of the Government align with decisions made elsewhere?' So, in a sense, it is a looking back at the decisions you've made and testing them against those criteria."*[37]

49. Mewn ymateb i argymhelliad a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2025-26,[38] comisiynodd Ysgrifennydd y Cabinet adolygiad o'r Asesiad Effaith.[39]

50. O ganlyniad i'r adolygiad, mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi'i hategu gan Asesiad Effaith Integredig Strategol interim[40], a chafodd fersiwn derfynol ddiwygiedig o'r Asesiad Effaith ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.[41]

51. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor, drwy gydol tymor y Senedd hon, eu bod wedi gweithio mewn cydweithrediad â Grŵp Cyllideb Menywod Cymru fel aelod allweddol o'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb.[42] Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor hefyd fod ei swyddfa wedi bod yn rhan o ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant i brosesau'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol.[43]

---

[36] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig Strategol, Asesiad Interim, Tachwedd 2025, tudalen 2
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 43
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Rhagfyr 2025, Argymhelliad 21
[39] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Graffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, 23 Ionawr 2026, tudalen 12
[40] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig Strategol – Asesiad Interim, Tachwedd 2025
[41] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig Strategol – Asesiad Terfynol, Ionawr 2026
[42] Ymateb Llywodraeth Cymru i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Drafft 2026-27, Ionawr 2026, tudalen 18
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 10

Cynllun Gwella'r Gyllideb

52. Yn 2019, datblygodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gwella'r Gyllideb i "wella proses y gyllideb drwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus".[44] Rhoddwyd Cynllun Gwella'r Gyllideb ar waith rhwng 2021 a 2026, gan olygu mai Cyllideb Ddrafft 2026-27 yw blwyddyn olaf y cynllun.[45]

53. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet, yn ei farn ef, fod Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi cyflawni ei nod o roi mwy o bwyslais ar hygyrchedd data a hygyrchedd gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses gyllidebol. Eglurodd:

> *"I think it moved us to providing a greater focus on the basis for decisions, rather than just the decisions themselves, so a greater emphasis on evidence and a greater emphasis on data. I think it had a greater focus on cross-Government impacts of spending—not just the individual portfolio impacts, but the cumulative impacts. I think it tried to help us look forward in the budget process, rather than just always reporting on what had been done."*[46]

54. Gan edrych ymlaen at y Seithfed Senedd, roedd yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn y byddai'n werth cael fersiwn newydd o Gynllun Gwella'r Gyllideb, ac awgrymodd y gallai ganolbwyntio ar effaith deallusrwydd artiffisial.[47]

Barn y Pwyllgor

55. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y cyd-destun ariannol heriol yn ystod y Chweched Senedd, rydym wedi ei chael hi'n anodd olrhain i ba raddau y mae cyllidebau Llywodraeth Cymru wedi symud, neu beidio, at ddull tymor hwy. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus o ran y diffyg eglurder ynghylch allbynnau, gan gynnwys a yw dyraniadau'n symud i ffwrdd o wasanaethau acíwt tuag at ddull mwy ataliol a fydd yn lleihau'r galw yn y dyfodol ac yn gwella cynhyrchiant a fydd yn cynyddu allbwn economaidd ac yn tyfu'r sylfaen drethu yn y dyfodol.

[44] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, Rhagfyr 2020, tudalen 1
[45] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, Hydref 2025
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 71
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 71

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol yn parhau i fonitro dull Llywodraeth Cymru o ddangos sut y mae'n blaenoriaethu dyraniadau a rhaglenni sy'n ataliol ac yn gwella cynhyrchiant.

56. Nodwn yr hyn a ddysgwyd yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet yn sgil y cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd a gynhaliwyd yn ystod y Senedd hon, ac rydym yn croesawu'r bwriad i ledaenu'r hyn a ddysgwyd a sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori'n gyson ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth nesaf Cymru yn datblygu ac yn gweithredu cynllun clir ar gyfer cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd ar draws yr adrannau, gan gynnwys dulliau i fonitro cynnydd a gwerthuso effaith.

57. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gryfhau'r asesiad o effeithiau o fewn proses y gyllideb yn ystod y Chweched Senedd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu ymgysylltiad parhaus Llywodraeth Cymru â Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a chyfranogiad y Comisiynydd wrth gefnogi a chynghori ar brosesau'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Mae'r Aelodau'n cytuno bod yr arbenigedd allanol hwn yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu gwydnwch a hygrededd asesiad effaith integredig.

58. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27 wedi'i hategu gan Asesiad Effaith Integredig Strategol dros dro, gyda fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol yn dilyn yr adolygiad a gomisiynwyd mewn ymateb i argymhelliad cynharach y Pwyllgor hwn. Er bod y Pwyllgor yn deall y rhesymeg dros y dull fesul cam hwn, mae'n parhau i fod yn bryderus bod natur dros dro yr asesiad yn lleihau gallu'r Pwyllgor i ystyried goblygiadau llawn cynigion gwariant mewn modd amserol.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i wella'r sail dystiolaeth i'r Senedd allu deall yr effeithiau y mae penderfyniadau a wneir yng Nghyllideb Cymru yn debygol o'u cael ar wahanol grwpiau mewn dogfennaeth, megis yr Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Datblygu Sgiliau Llythrennedd Ariannol a Chyllidol

59. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod gwaith ar y gweill o fewn Comisiwn y Senedd i sicrhau bod Aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd i'r Seithfed Senedd

yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen i gyflawni eu dyletswyddau fel cynrychiolwyr etholedig.[48]

60. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd y bydd materion a godir gan y Pwyllgor yn ystod y Senedd hon yn cael eu rhannu â'n holynwyr. Eglurodd:

> *"... unwaith i Gadeiryddion ac aelodau'r pwyllgorau gael eu penodi, ac unwaith i gyfrifoldebau'r gwahanol bwyllgorau gael eu pennu yn y seithfed, mi fydd e'n ffocws arbennig inni weithio i helpu pobl i ddeall eu cyfrifoldebau yn y modd yna."*[49]

61. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn gobeithio y byddai Senedd fwy o faint yn golygu na fydd gofyn i Aelodau ymdrin â chymaint o agweddau ar gyfrifoldeb ac, o ganlyniad i hynny, dywedodd:

> *"... there will be people who will be able to develop a greater depth of experience and knowledge in a particular area, and will be better equipped, therefore, to ask some of those questions than maybe is possible when the Senedd is running on fewer people than we know it needs to do the job it's asked to do."*[50]

Barn y Pwyllgor

62. Nododd y Pwyllgor farn yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai Senedd fwy o faint roi cyfle i Aelodau newydd, a allai fod yn gorfod ymdrin ag ystod gulach o feysydd pwnc, ddatblygu mwy o brofiad a gwybodaeth mewn meysydd penodol. Gwnaethom hefyd groesawu sicrwydd gan Gomisiwn y Senedd (y Comisiwn) bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod pob Aelod yn derbyn hyfforddiant priodol a fydd wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol.

63. Rydym wedi gwneud sylwadau mewn man arall yn yr adroddiad hwn fod Fforwm y Pwyllgor Cyllid Rhyngseneddol wedi nodi y gallai darparu hyfforddiant llythrennedd cyllidol fod yn faes lle gallai'r fforwm ychwanegu gwerth. Gyda nifer yr Aelodau newydd a ddisgwylir yn dilyn etholiad nesaf y Senedd, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr i Aelodau i'w

[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraffau 56 - 57
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 59
[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 29

helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd cyllidol, ar ddechrau tymor y Senedd ac yn barhaus drwy gydol tymor y Senedd.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr i Aelodau o'r Senedd i helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd cyllidol, megis deall sut mae cyllid y llywodraeth, trethiant a phenderfyniadau gwariant yn effeithio ar yr economi a bywydau unigolion, ar ddechrau tymor y Senedd ac yn barhaus drwy gydol y tymor.

2. Trethi Cymru

Adolygiad Statudol o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022

64. Cyflwynwyd y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)[51] ym mis Rhagfyr 2021 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio tair Deddf Treth Cymru[52] a rheoliadau cysylltiedig at ddibenion penodedig, sef ymateb i benderfyniadau llys, amddiffyn rhag osgoi trethi, ymateb i newid i dreth ragflaenol a sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol. Roedd hyn yn cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau yn ôl-weithredol.[53]

65. Drwy gydol eu gwaith craffu, cododd pwyllgorau'r Senedd bryderon cyfansoddiadol sylweddol. Cwestiynodd y Pwyllgor ai pŵer gwneud rheoliadau eang iawn oedd y mecanwaith gorau neu'r mecanwaith mwyaf cymesur ar gyfer gwneud newidiadau i'r system drethi, gan nodi bod pwerau o'r fath, fel arfer, yn cael eu cadw ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol[54]. Daeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r casgliad nad oedd y Bil yn "gyfrwng deddfwriaethol priodol", ac y dylid ei ystyried yn fesur dros dro yn unig.[55]

66. Yng Nghyfnod 2, mewnosododd Llywodraeth Cymru adran 6 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu gweithrediad ac effaith Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (Deddf 2022). Diwygiwyd yr adran hon ymhellach yng Nghyfnod 3 i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i asesu "[m]ecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r Deddfau hynny" fel rhan o'r adolygiad, ac i ymgynghori â'r Senedd a phersonau priodol eraill.[56]

67. Mewnosodwyd adran 7 hefyd yng Nghyfnod 2 i gynnwys cymal machlud sy'n dod â'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 1 i ben bum mlynedd ar ôl i Ddeddf 2022 dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Yng Nghyfnod 3, diwygiodd Llywodraeth

[51] Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022
[52] Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
[53] Gwaith Craffu'r Senedd ar y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)
[54] Y Pwyllgor Cyllid, y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, Ebrill 2022
[55] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu), Ebrill 2022
[56] Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022, adran 6

Cymru'r adran hon i gynnwys yr opsiwn i Weinidogion Cymru ymestyn y cyfnod hwnnw i ddyddiad gorffen hwyraf o 30 Ebrill 2031 drwy reoliadau.[57]

68. Nid oes unrhyw reoliadau i ddiwygio Deddf Deddfau Treth Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (Deddf 2022) wedi'u gwneud o dan adran 1 o'r Ddeddf hon hyd yma.

69. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad statudol o Ddeddf 2022 ar 13 Chwefror 2026.[58] Dywedodd Datganiad Ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Cabinet, er bod ymgyngoreion yn ystyried mai deddfwriaeth syflaenol yw'r "mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer newid trethi" roedd "cydnabyddiaeth eang bod angen pwerau hyblyg ar Gymru o hyd i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau allanol sy'n effeithio ar drethi datganoledig". Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Cyn bo hir, rwy'n bwriadu gosod Rheoliadau drafft i estyn y cymal machlud yn Neddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 i'r uchafswm a ganiateir, sef 30 Ebrill 2031. Bwriad hyn yw rhoi'r amser i'r Senedd nesaf a Llywodraeth Cymru sefydlu'r dull gweithredu y maent yn ei ystyried yn briodol ar y cam hwn o'r daith ddatganoli i wneud newidiadau i'n trethi datganoledig."*[59]

70. Gosodwyd y Rheoliadau drafft ar 24 Chwefror 2026, i'w trafod ar 17 Mawrth 2026. Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad ar y rheoliadau ar 13 Mawrth 2026.[60]

Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru

71. Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Refeniw Cymru bapur gwyrdd[61] ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru. Roedd y papur yn amlinellu newidiadau posibl i ddeddfwriaeth treth, gan nodi:

---

[57] Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022, adran 7
[58] Adolygiad Gweinidogion Cymru o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022, 13 Chwefror 2026
[59] Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 ac adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, 13 Chwefror 2026
[60] Pwyllgor Cyllid, Rheoliadau Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (Estyn Dyddiad Dod i Ben) 2026, Mawrth 2026
[61] Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru, Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru, Tachwedd 2025

> *"Byddai'r newidiadau deddfwriaethol a gynigir yn ceisio unioni meysydd lle mae ACC wedi ei chael hi'n anodd, yn ymarferol, i weithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol, mewn ymateb i adborth gan drethdalwyr neu i sicrhau bod Cymru yn unol â newidiadau sydd wedi digwydd mewn rhannau eraill o'r DU."*[62]

72. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod yr ymgynghoriad wedi adlewyrchu degawd cyntaf perfformiad Awdurdod Cyllid Cymru ac wedi nodi sawl gwelliant technegol:

> *"... for example, there is a reading of the governance rules that were set up by the Senedd for the WRA that says that it's impossible for executives of the WRA to make a decision unless they have a non-executive alongside them making it. Now, I don't think that was ever really our intention. We expected non-executives to operate at the board level and in some of the important sub-committees, but we did not expect people who are full-time, very experienced professionals to have somebody else on their shoulder every time they make a decision."*[63]

73. Awgrymodd y byddai newidiadau deddfwriaethol eraill yn helpu Awdurdod Cyllid Cymru i ymateb yn fwy effeithiol i newidiadau polisi ehangach, megis datblygiadau mewn rhyddfreinio lesddaliad a rhydd-ddaliad.[64]

74. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y gwaith hwn wedi'i baratoi gyda thymor nesaf y Senedd mewn golwg. O ystyried y tymor byrrach o bedair blynedd a'r tebygolrwydd y bydd deddfwriaeth polisi mawr yn cymryd amser i'w datblygu, awgrymodd fod y newidiadau arfaethedig yn cynnig Bil defnyddiol, nad yw'n ddadleuol, y gallai Llywodraeth newydd ei gyflwyno'n gynnar, pe bai'n dewis gwneud hynny.[65]

75. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 13 Chwefror 2026.[66]

[62] Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru, Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru, Tachwedd 2025, tudalen 2
[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraffau 100-101
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 101
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 101
[66] Llywodraeth Cymru, Gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru: Crynodeb o'r ymatebion, 13 Chwefror 2026

Datganoli Pwerau Trethu Ymhellach

Treth Incwm

76. Yn ystod y Chweched Senedd, daeth tystiolaeth i law'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar gyfyngiadau pwerau presennol Llywodraeth Cymru dros dreth incwm. Mae datganoli pwerau treth incwm yn rhannol yn golygu, er y gellir newid cyfradd treth incwm ar fandiau treth unigol, na ellir newid trothwyon treth ac na ellir ychwanegu bandiau treth ychwanegol. Mae hyn yn golygu mai cynyddu'r gyfradd sylfaenol yw'r unig gamau a fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth mewn gwirionedd.[67] Yn wahanol i bwerau trethu yn yr Alban, nodwn hefyd anallu Llywodraeth Cymru i gyflwyno bandiau a throthwyon treth newydd.[68] Argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 y dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â gwaith sylfaenol ar y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i addasu bandiau a throthwyon Cyfraddau Treth Incwm Cymru.[69]

77. Yn ein hadroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, gwnaethom hefyd fynegi ein siom â'r diffyg cynnydd o ran datganoli pwerau i gyflwyno trethi newydd, ac roeddem yn cefnogi'r Gweinidog ar y pryd yn ei hymdrechion i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y materion hyn.[70] Mewn ymateb, cytunodd y Gweinidog ar y pryd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw waith dadansoddol a wneir.[71]

78. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Sefydliad Fraser of Allander ym Mhrifysgol Strathclyde a Phrifysgol Bangor i wneud gwaith ar opsiynau yn y dyfodol ar gyfer datganoli treth incwm yng Nghymru, a chyhoeddwyd eu canfyddiadau ar 6 Mawrth 2026.[72]

Treth Tir Gwag

79. Mae adran 116C o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys mecanwaith ar gyfer datganoli trethi pellach i'r Senedd drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

---

[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 443
[68] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, paragraffau 209-201 ac Argymhelliad 17
[69] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, Argymhelliad 6
[70] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, paragraffau 209-201 ac Argymhelliad 17
[71] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Waith Craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru, Mawrth 2024
[72] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi ymchwil annibynnol i'r opsiynau ar gyfer datganoli'r dreth incwm yng Nghymru, 6 Mawrth 2026

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried Treth Tir Gwag ers 2018 fel treth ddatganoledig newydd bosibl i ysgogi datblygu ar dir gwag.[73]

80. Mynegodd Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd bryder sylweddol ynghylch yr oedi cyn datganoli pwerau sy'n ofynnol ar gyfer treth Tir Gwag, gan gwestiynu'n benodol a yw'r mecanwaith presennol ar gyfer datganoli pwerau treth newydd yn addas at y diben.[74]

81. Ym mis Chwefror 2026, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet Ddatganiad Ysgrifenedig yn cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad ar y cyd ar ddatganoli pwerau i gyflwyno treth Tir Gwag. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae amseriad yr ymgynghori yn nwylo Trysorlys EF, ond mae hyn yn gam pwysig ymlaen yn ein huchelgais tymor hir i gyflwyno treth o'r fath yng Nghymru."*[75]

82. Trafodir hyn ymhellach yn adroddiad y Pwyllgor ar yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2025-26.[76]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cyllid (Rhif 2)

83. Ar 16 Rhagfyr 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar Fil Cyllid y DU (Rhif 2).[77] Mae'r Bil yn cyflwyno cyfraddau treth incwm eiddo newydd o fewn y fframwaith treth incwm presennol. Mae hefyd yn rhoi pŵer canlyniadol i'r Senedd i amrywio cyfraddau treth incwm eiddo Cymru, gan adlewyrchu'r Cyfraddau Treth Incwm Cymru cyfredol ar gyfer incwm nad yw'n gynilion ac incwm di-ddifidend. Byddai'r ddarpariaeth sy'n galluogi'r Senedd i bennu cyfraddau treth incwm eiddo Cymru ar wahân yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Drysorlys EF drwy reoliadau, gyda'r flwyddyn dreth 2027-28 yn bwynt cynharaf y gellid arfer y pŵer.[78]

---

[73] Ymchwil y Senedd, Erthygl: Methu symud ymlaen â'r trafodaethau ynghylch treth tir gwag, Hydref 2021
[74] Erthygl gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid (y Bumed Senedd): Mae angen i drethdalwyr fod yn sicr o system ariannu deg ar gyfer Cymru, lle mae refeniw treth yn sicrhau gwerth am arian, Mawrth 2021
[75] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cytundeb i ymgynghori ar ddatganoli pwerau ar gyfer Treth Tir Gwag yng Nghymru, 11 Chwefror 2026
[76] Pwyllgor Cyllid, Craffu ar yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2025-26, Mawrth 2026
[77] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025
[78] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025

84. Er na wnaeth y Pwyllgor adrodd yn ffurfiol ar y Memorandwm, ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Cabinet i fynegi cefnogaeth i'r estyniad arfaethedig o bwerau datganoledig ac i geisio eglurhad ar nifer o faterion. Tynnodd yr ohebiaeth hon sylw hefyd at yr angen i'r Pwyllgor Busnes ystyried goblygiadau gweithdrefnol arfer y pŵer hwn maes o law.[79]

85. Cymeradwyodd y Senedd y Memorandwm ar gyfer y Bil Cyllid (Rhif 2) ar 3 Chwefror 2026[80] a chafwyd ymateb i'n llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 17 Chwefror 2026.[81]

Barn y Pwyllgor

86. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y datblygiadau sy'n ymwneud â threthiant datganoledig sydd wedi digwydd yn ystod y Chweched Senedd yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ynghylch sut y dylid ystyried trethiant a gweithdrefnau cysylltiedig mewn Senedd fwy o faint. Fel y nodwyd ym Mhennod 1 o'r adroddiad hwn, dylai unrhyw gamau i ddatblygu proses newydd y gyllideb ar gyfer Senedd fwy o faint gael eu cyflwyno gyda'i gilydd gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, ac rydym yn ailadrodd y safbwyntiau hynny yma.

87. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi datblygiadau parhaus sy'n ymwneud â threthiant datganoledig, gan gynnwys cynigion ar gyfer treth ar Dir Gwag a'r cynigion i'r Senedd osod cyfraddau treth incwm eiddo Cymru. Nodwn hefyd fod canfyddiadau ymchwil annibynnol i opsiynau ar gyfer datganoli treth incwm yng Nghymru wedi'u cyhoeddi ym mis Mawrth 2026 hefyd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai o'r cynigion hyn yn eu camau cynnar o hyd, a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnwys y Pwyllgor wrth eu datblygu.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth nesaf Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w bwyllgor olynol ar ddatblygiadau sy'n ymwneud â chynigion ar gyfer treth Tir Gwag, a datganoli pwerau trethu incwm eiddo, erbyn mis Medi 2026.

[79] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, 23 Ionawr 2026 a Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 17 Chwefror 2026
[80] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 3 Chwefror 2026
[81] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 17 Chwefror 2026

3. Ymchwiliadau'r Pwyllgor

88. Yn ystod y Chweched Senedd, cynhaliodd y Pwyllgor yr ymchwiliadau rhagweithiol a ganlyn.[82]

Trefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE

89. Yn 2022, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i Drefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gronfa Adnewyddu'r Gymuned, y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.[83]

90. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Hydref 2022, gan nodi 20 o argymhellion a phum casgliad wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu ar y cyd at y ddwy.[84] Cafodd pob argymhelliad a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru eu derbyn[85]. Gwnaeth Llywodraeth y DU ymateb i'r adroddiad ym mis Tachwedd 2022.[86]

Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol

91. Ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol.[87] Cafodd ei lywio gan waith craffu ar y gyllideb a gynhaliwyd yn y Chweched Senedd, a amlygodd fod penderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru yn aml yn cael eu cyfyngu gan strwythurau a phrosesau sydd wedi dyddio, nad oeddent bellach yn adlewyrchu realiti tiriogaethol presennol y DU.[88]

92. I lywio'r ymchwiliad, cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliodd sesiynau tystiolaeth[89] ac ysgrifennodd at sefydliadau rhyngwladol am enghreifftiau o arfer da (Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol).[90]

---

[82] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith wedi'i gwblhau ac adroddiadau cyhoeddedig
[83] Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad, Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE
[84] Y Pwyllgor Cyllid, Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE, Hydref 2022
[85] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar drefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE, Tachwedd 2022
[86] Llywodraeth y DU, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar drefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE, Tachwedd 2022
[87] Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol
[88] Y Pwyllgor Cyllid, Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol, Hydref 2024
[89] Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol
[90] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at sefydliadau rhyngwladol, 29 Mai 2024

93. Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd a'r Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys ar y pryd wedi gwrthod y gwahoddiad i ddod i sesiwn dystiolaeth lafar.

94. Yn ei adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor 18 o argymhellion a phum casgliad, a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi perthnasau mwy teg rhwng y Trysorlys a llywodraethau datganoledig y DU.[91] Cododd yr adroddiad hefyd faterion yn ymwneud â sicrhau mwy o hyblygrwydd cyllidebol i Lywodraeth Cymru wrth reoli ei chyllid ei hun ac am fwy o dryloywder mewn perthynas â sut mae penderfyniadau cyllido datganoledig Llywodraeth y DU mewn perthynas â Chymru yn cael eu gwneud.

95. Cafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru[92], ond ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth gan y Trysorlys, gan adleisio anawsterau ehangach y mae'r Pwyllgor wedi'u hwynebu wrth sicrhau ymgysylltiad ystyrlon drwy gydol y Chweched Senedd.[93]

96. Yn ystod ein sesiwn gwaddol, myfyriodd yr Ysgrifennydd Cabinet p'un a yw strwythurau newydd y Grŵp Cydweithredol Rhyngwladol wedi galluogi materion cyllidol sy'n benodol i Gymru i gael eu codi'n fwy effeithiol gyda Llywodraeth y DU:

> *"... I do think that the gains that were made in that inter-governmental relations work have been real and they are maybe more real in the FISC than they are in some other aspects of that architecture, because it has operated as it was intended in its regularity of meetings and in having a slightly greater degree of equality of participation between the four nations."*[94]

97. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod trefniadau sefydliadol wedi newid yn gadarnhaol iawn yn dilyn y newid yn Llywodraeth y DU yn 2024.[95]

98. Fodd bynnag, dywedodd fod heriau sylfaenol yn parhau, yn enwedig y newid mynych ymhlith Prif Ysgrifenyddion y Trysorlys, sy'n tarfu ar barhad ac yn ei gwneud yn ofynnol i drafodaethau ailgychwyn gyda chymheiriaid newydd.[96]

---

[91] Y Pwyllgor Cyllid, Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol, Hydref 2024
[92] Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r Pwyllgor Cyllid ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol, Tachwedd 2024
[93] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 11 Rhagfyr 2024, Paragraff 242
[94] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 78
[95] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 78
[96] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 79

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

99. Yn 2024, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i Gyfalaf Trafodiadau Ariannol.[97]

100. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn offeryn cyllidol defnyddiol ond daeth i'r casgliad bod "gallu Llywodraeth Cymru i wneud y gorau o'i effeithiolrwydd yn cael ei lesteirio gan y natur ansicr a'r rheolau llym ynghylch ei ddefnydd a osodir yn ganolog gan Lywodraeth y DU".[98]

101. O'r 15 o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad[99], gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, pob un ohonynt.[100]

102. O ganlyniad i un o argymhellion y Pwyllgor[101], darparwyd dadansoddiad mwy manwl o ddyraniadau arfaethedig Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn nogfennaeth Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26[102], a 2026-27[103].

103. Yng ngoleuni adroddiad y Pwyllgor, clywsom gan Lywodraeth Cymru:

> *"We are looking at ways in which we can use FTC alongside conventional capital to increase the capacity of social landlords to be able to borrow money for investment in the sector—so, combined grants, low-cost loans and equity as well, alongside Government guarantees."*[104]

104. Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at werth ac effaith ymchwiliadau rhagweithiol y Pwyllgor:

> *"... some of the most helpful reports from the committee are the work that you have chosen to do, not on the budget process directly, but, for example, the report that you produced on financial transactions capital. We have made a lot of use of that and tried to make some real progress in the recommendations you made."*[105]

[97] Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Gyfalaf Trafodiadau Ariannol
[98] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, Tachwedd 2024, Casgliad 1
[99] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, Tachwedd 2024
[100] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyfalaf Trafodiadau Ariannol, Ionawr 2025
[101] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, Tachwedd 2024, Argymhelliad 4
[102] Llywodraeth Cymru, Naratif y Gyllideb Ddrafft, Rhagfyr 2024
[103] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025
[104] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 180
[105] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraff 124

Barn y Pwyllgor

105. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith rhagweithiol a wnaed yn ystod y Senedd mewn perthynas â Threfniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE, Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol a Chyfalaf Trafodiadau Ariannol ac yn cydnabod bod y rhain yn feysydd o weithgarwch parhaus. Mae'r Pwyllgor yn croesawu barn yr Ysgrifennydd Cabinet ar werth ein hymchwiliadau, yn enwedig y materion a nodwyd gennym yn ystod ein hymchwiliad i'r Cyfalaf Trafodiadau Ariannol.

106. Fodd bynnag, mae natur cylch gwaith y Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd wedi cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i gynnal ymchwiliadau polisi sy'n ymwneud â pholisi cyllid. Rydym o'r farn bod cynnal ymchwiliadau o'r fath yn cynnig manteision clir ac yn credu y dylid ystyried hyn wrth benderfynu ar gwmpas cylch gwaith ein Pwyllgor olynol.

107. Rydym hefyd yn cyfeirio at y materion a godwyd yn ein llythyr at Fforwm y Cadeiryddion ynghylch ei Adolygiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau. Fel y mae dogfen ymgynghori'r Fforwm yn ei nodi, y Pwyllgor Cyllid yw un o'r ddau bwyllgor lleiaf o ran maint yn y Chweched Senedd. Er nad yw hyn wedi arwain at broblemau o ran cworwm hyd yma, mae maint ein haelodaeth wedi golygu ein bod bron wedi methu â sicrhau cworwm o bryd i'w gilydd, yn enwedig pan nad yw Aelodau'n gallu dod i gyfarfod ar fyr rybudd neu oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Mae maint y pwyllgor hefyd wedi ein gwneud yn fwy agored i heriau logistaidd ac wedi rhoi mwy o bwysau ar Aelodau i ddod i bob cyfarfod o gymharu ag Aelodau sydd ar bwyllgorau mwy o faint. Mae aelodaeth lai hefyd yn cyflwyno heriau ymarferol wrth drefnu ymweliadau allanol a digwyddiadau ymgysylltu.[106]

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn sicrhau na ddylid gorlwytho cylch gwaith ei bwyllgor olynol er mwyn caniatáu ar gyfer cynnal ymchwiliadau polisi cyllid rhagweithiol rheolaidd.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cynyddu aelodaeth ei bwyllgor olynol i wella gwydnwch yn erbyn cyfarfodydd heb gworwm, lleddfu pwysau presenoldeb, cryfhau'r capasiti ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu allanol, ac y dylid ystyried cydbwysedd rhywedd priodol fel rhan o'i gyfansoddiad.

108. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal gwaith craffu helaeth ar gysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol yn ystod y Chweched Senedd. Yn ogystal â'n hymchwiliad, rydym hefyd wedi cefnogi Llywodraeth Cymru i gymryd camau i

[106] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at Fforwm y Cadeiryddion, 6 Hydref 2025

sicrhau mwy o hyblygrwydd cyllidebol ac am fwy o dryloywder ynghylch sut mae penderfyniadau ariannu'r Trysorlys mewn meysydd datganoledig yn cael eu gwneud. Dyma themâu sydd wedi cael eu codi'n barhaus yn ein gwaith craffu ar y gyllideb, yn fwyaf diweddar wrth i ni ystyried Ail Gyllideb Atodol 2025-26.[107] Er gwaethaf ein gwaith, rydym yn arbennig o siomedig bod y Trysorlys wedi gwrthod gwahoddiadau i ddod i sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Pwyllgor ac nad yw wedi ymgysylltu â'n hymchwiliad. Er ein bod yn deall nad yw hyn wedi cael ei helpu gan drosiant uchel o weinidogion yn Whitehall, sydd wedi llesteirio parhad ac wedi rhwystro datblygiad cysylltiadau gwaith rhynglywodraethol mwy adeiladol a sefydlog, mae'r agwedd hon gan y llywodraeth ganolog tuag at ymgysylltu â'r Senedd ar faterion cyllidol yn parhau i fod yn destun gofid ac yn fater parhaus i'r Senedd nesaf.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion a nodir yn ei adroddiadau ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol, Cyfalaf Trafodiadau Ariannol a Threfniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE.

[107] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2025-26, Mawrth 2026

4. Deddfwriaeth

Goblygiadau Ariannol Biliau

109. Er nad oes rôl benodol i'r Pwyllgor fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol (oni bai bod Bil yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor i ystyried yr egwyddorion cyffredinol), mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod y caiff y Pwyllgor:

> *"... hefyd ystyried a chyflwyno adrodd ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â threfniadau cyllido neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar drefniadau cyllido neu'r gwariant hwnnw."*[108]

110. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd hefyd yn nodi y gall "graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Senedd".[109]

111. Mae wedi bod yn arfer safonol i'r Pwyllgor graffu ar oblygiadau ariannol Biliau a gyflwynir i'r Senedd, oni bai eu bod yn arwain at ddim costau neu ychydig iawn o gostau. Mae'r Pwyllgor wedi adrodd ar 24 o'r 31[110] o'r Biliau a gyflwynwyd yn ystod y Senedd hon, gan gynnwys tri Bil Aelod[111] a dau Fil a gafodd eu cyfeirio at y Pwyllgor i ystyried yr egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1.[112]

112. Yn gynnar yn y Senedd hon, mynegodd y Pwyllgor bryderon bod Llywodraeth Cymru wedi symud oddi wrth ddarparu ymateb ysgrifenedig i'w hadroddiadau ar oblygiadau ariannol Biliau cyn gofyn i Aelodau awdurdodi gwariant sy'n deillio o Fil. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidogion ddychwelyd at yr arfer blaenorol o ddarparu ymateb ysgrifenedig i argymhellion y Pwyllgor cyn y ddadl Cyfnod 1 a'r Penderfyniad Ariannol, er mwyn galluogi'r Senedd i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch dyrannu adnoddau.[113]

---

[108] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru: Rheol Sefydlog 19.3
[109] Y Pwyllgor Busnes, Adroddiad ar Bwyllgorau yn y Chweched Senedd: Teitlau a chylchoedd gwaith, Mehefin 2021
[110] Ni wnaeth y Pwyllgor adrodd ar y Biliau a ganlyn: Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru); Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol); Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025; Bil Cynllunio (Cymru); Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru); Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru); Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth)
[111] Bil Bwyd (Cymru) (Peter Fox AS); Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) (Sam Rowlands AS); Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mark Isherwood AS)
[112] Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu); Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc (Cymru)
[113] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog, 16 Tachwedd 2022

113. Yn dilyn gohebiaeth bellach rhwng Llywodraeth Cymru[114] a'r Pwyllgor[115], rhoddodd y Trefnydd ymrwymiad y byddai "pob un o Weinidogion Cymru yn ymdrechu i ymateb i Adroddiad Cam 1 y Pwyllgor Cyllid ar gyfer Biliau'r Senedd cyn y cynhelir y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar y Bil hwnnw".[116]

114. Er bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â Biliau wedi cynnwys fformat penodol ar gyfer crynodeb o gostau yn gyffredinol, mae'r prif gynnwys wedi amrywio o ran cyflwyniad a dull o hyd. Adlewyrchwyd hyn yn ymateb y Pwyllgor i adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod:

> *"Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwelliannau i'r wybodaeth ariannol a ddarperir ochr yn ochr â Biliau a gyflwynwyd yn ystod y Chweched Senedd, yn fwyaf nodedig o ran darparu asesiadau fforddiadwyedd ochr yn ochr ag Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi y gall y wybodaeth ariannol a ddarperir amrywio'n sylweddol o Fil i Fil, a dylid gwneud mwy o ymdrech i ddatblygu safon cyson uchel o gyflwyniad."*[117]

115. Mae'r Pwyllgor wedi gweld gwahanol ddulliau o gyflwyno gwybodaeth. Er enghraifft, roedd adroddiadau model cost a budd ar wahân yn cyd-fynd â Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)[118], ac roedd papur methodoleg yn cyd-fynd â Bil Seilwaith (Cymru)[119]. Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid ym mis Mai 2023, nododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd fwriad Llywodraeth Cymru i gynnwys "dadansoddiad ariannol atodol sy'n canolbwyntio ar fforddiadwyedd" ar gyfer Biliau yn y dyfodol.[120] Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) oedd y cyntaf i gynnwys asesiad fforddiadwyedd o'r fath ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a arweiniodd at y Pwyllgor yn gwneud yr argymhelliad hwn:

> *"**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod cyflwyno asesiad fforddiadwyedd, fel yr un a ddarperir yn y Bil hwn, yn fodel arfer*

[114] Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Cyllid, 7 Rhagfyr 2022
[115] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog, 19 Rhagfyr 2022
[116] Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd at y Pwyllgor Cyllid, 15 Chwefror 2023
[117] Adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod: Ymateb gan y Pwyllgor Cyllid, Mawrth 2025
[118] Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau Ariannol y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru), Tachwedd 2025, paragraff 19
[119] Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau Ariannol y Bil Seilwaith (Cymru), Tachwedd 2023, paragraff 2
[120] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, Mai 2023

> *da ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'r dull newydd hwn."*[121]

116. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys asesiad fforddiadwyedd fel mater o drefn ers hynny. Yn ei adroddiad ar adolygiad o brosesau Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r arfer sefydledig o ddarparu asesiadau fforddiadwyedd mewn perthynas â Biliau'r llywodraeth barhau yn y Seithfed Senedd:

> *"**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Seithfed Senedd barhau â'r arfer da a sefydlwyd yn y Chweched Senedd o gynnwys asesiad o fforddiadwyedd y goblygiadau ariannol yn y memoranda esboniadol ac asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer ei Biliau."*[122]

117. Wrth fyfyrio ar ansawdd a chywirdeb y costau a gyflwynir mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â Biliau, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gan rai Biliau, fel Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), gostau y gellir eu hadnabod yn hawdd, gan wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn symlach. Tra bod eraill, fel Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), yn cwmpasu penderfyniadau yn y dyfodol sydd heb eu gwneud eto, gan wneud amcangyfrif costau yn rhagolwg gwahanol iawn. I fynd i'r afael â hyn, tynnodd sylw at symudiad tuag at ddarparu ystodau costau a phwysleisiodd yr angen i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol fod yn glir ynghylch cyfyngiadau data:

> *"... I think the challenge is less about whether the RIA system can be improved and more about recognising that, amongst those 24 pieces of legislation, some of them are just easier to cost and some of them are very challenging to cost, and as a result, sometimes the Senedd gets quite broad ranges that I know the Finance Committee has not always felt were good enough for the purpose."*[123]

118. Mae'r Pwyllgor wedi nodi'n aml nad oes digon o fanylion yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â Biliau am gostau is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn enwedig o ystyried nifer y Biliau fframwaith a gyflwynwyd yn ystod y Chweched Senedd. Mae hyn wedi arwain at y Pwyllgor yn gwneud nifer o argymhellion yn

[121] Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau Ariannol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Ionawr 2024
[122] Y Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd
[123] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraffau 106-108

galw am Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Filiau.[124]

119. Mae llawlyfr Llywodraeth Cymru ar Filiau'r Senedd yn nodi:

> *"Dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol nodi'r amcangyfrif gorau o gost y ddeddfwriaeth yn ei chyfanrwydd ac mae hyn yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig. Hyd yn oed pan nad yw union fanylion is-ddeddfwriaeth wedi cael eu pennu'n derfynol, mae angen amcangyfrif gorau o'r costau a'r manteision tebygol i alluogi'r Senedd i graffu'n llawn ar y ddeddfwriaeth."*[125]

120. Pan ofynnwyd iddo am ddefnyddioldeb amcangyfrifon Asesiadau Effaith Rheoleiddiol wrth bennu cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod yn rhaid i Weinidogion sy'n cynnig deddfwriaeth gynllunio ac ariannu ei goblygiadau ariannol o fewn eu cyllidebau adrannol eu hunain, gan nad oes cronfa ganolog ar gyfer gweithredu. Cydnabu fod hyn yn creu heriau i adrannau, ond pwysleisiodd fod yn rhaid i uchelgeisiau deddfwriaethol, boed yn ddeddfwriaeth sylfaenol neu'n is-deddfwriaeth, fod yn fforddiadwy er mwyn bwrw ymlaen.[126]

121. Cynhaliodd Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth.[127] Yn ei adroddiad gwaddol, awgrymodd y gallai "pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn dymuno cynnal ymchwiliad tebyg i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth" ac aeth ymlaen i argymell:

> *"**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gwneud gwaith pellach i wella ansawdd yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei chynnwys mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol."*[128]

---

[124] Er enghraifft: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), Ebrill 2023 (Argymhelliad 2); Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Ionawr 2024 (Argymhelliad 1); Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Rhagfyr 2024 (Argymhelliad 3); Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), Hydref 2025 (Argymhelliad 2);
[125] Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd, Medi 2025, paragraff 6.37
[126] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Chwefror 2026, paragraffau 110 a 114
[127] Y Pwyllgor Cyllid (Y Bumed Senedd), Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth, Hydref 2017
[128] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd, Mawrth 2021, tudalen 44

Barn y Pwyllgor

122. Mae'r Rheolau Sefydlog yn rhoi'r pŵer i'r Pwyllgor archwilio unrhyw fater sy'n ymwneud â chyllid neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Yn unol â'r mandad hwn, rydym wedi parhau â'r arfer sefydledig o graffu ar oblygiadau ariannol Biliau a gyflwynir i'r Senedd. Mae ein gwaith craffu wedi canolbwyntio ar brofi dadansoddiad Llywodraeth Cymru, deall goblygiadau polisïau newydd o ran adnoddau, a chael sicrwydd bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i effaith ariannol deddfwriaeth ar y pwrs cyhoeddus yn ystod y broses o ddatblygu polisïau.

123. Yn gynnar yn nhymor y Senedd hon, gwnaethom fynegi pryder nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'n hadroddiadau ar oblygiadau ariannol Biliau cyn y ddadl Cyfnod 1 a'r Penderfyniad Ariannol. Gwnaethom groesawu'r ymrwymiad dilynol y byddai Gweinidogion yn ymdrechu i roi ymatebion o'r fath cyn y ddadl. Mae'r arfer hwn wedi cefnogi gwaith craffu effeithiol ac wedi sicrhau bod gan Aelodau fwy o wybodaeth cyn pleidleisio i awdurdodi gwariant.

124. Rydym yn croesawu'r gwelliannau a wnaed i'r wybodaeth ariannol a gyflwynir mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, yn enwedig yr arfer o gynnwys asesiadau fforddiadwyedd yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae safon y gwaith dadansoddi ariannol wedi amrywio'n sylweddol rhwng Biliau. Rydym yn cydnabod yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddiwyd, fel defnyddio adroddiadau model costau a manteision a phapurau methodoleg, ac er ein bod yn cytuno bod hyblygrwydd weithiau'n briodol, dylid cymhwyso set graidd o safonau i sicrhau cysondeb. Rydym yn cydnabod barn yr Ysgrifennydd Cabinet bod rhai Biliau yn haws i'w costio nag eraill yn eu hanfod. Mae'r newid tuag at gyflwyno ystodau costau yn ddefnyddiol yn gyffredinol, ond dim ond lle mae'r rhagdybiaethau a'r ansicrwydd sylfaenol wedi'u hegluro'n glir i gefnogi tryloywder a dealltwriaeth.

125. Thema sy'n codi dro ar ôl tro drwy gydol y Senedd hon yw diffyg manylion ynghylch goblygiadau ariannol is-ddeddfwriaeth, sy'n adlewyrchu'r nifer uchel o Filiau fframwaith a gyflwynwyd ers 2021. Mae hyn yn parhau i fod yn destun pryder sylweddol o ystyried bod Biliau galluogi yn aml yn gadael gwaith mawr i gynllunio polisïau a'r costau cysylltiedig i reoliadau yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ariannol mewn Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd ag is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae hwn yn ddewis gwael yn lle darparu costau ymlaen llaw yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyflwynir ochr yn ochr â'r Bil, gan fod yr amser a'r lefel o graffu a roddir i is-ddeddfwriaeth yn gyfyngedig. Mae llawlyfr Llywodraeth Cymru ei hun yn ei gwneud yn ofynnol rhoi'r amcangyfrifon gorau ar gyfer costau o'r fath lle bynnag y

bo modd, hyd yn oed lle nad yw'r manylion llawn wedi'u cwblhau eto. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y gofyniad hwn wedi'i fodloni'n gyson.

126. Rydym hefyd yn nodi disgwyliad yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd yn rhaid i Weinidogion ariannu goblygiadau ariannol eu Biliau o fewn cyllidebau adrannol. Mae hyn i'w ganmol ac yn atgyfnerthu'r angen am wybodaeth ariannol realistig o ansawdd uchel i sicrhau bod uchelgais ddeddfwriaethol yn wirioneddol gyflawnadwy. Bydd angen i'n pwyllgor olynol fonitro effeithiolrwydd y dull hwn wrth graffu ar oblygiadau ariannol Biliau a gyflwynir yn y Seithfed Senedd.

127. Argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd yn flaenorol y dylai'r pwyllgor cyfrifol yn y Chweched Senedd wneud gwaith pellach i wella ansawdd y wybodaeth ariannol sy'n cael ei chynnwys mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Er bod y Pwyllgor wedi gweithio yn ôl yr egwyddorion hyn fel mater o drefn drwy graffu ar Filiau yn ystod y Chweched Senedd, byddem wedi croesawu'r cyfle i archwilio'r materion hyn yn fanylach. Fodd bynnag, roedd ein cyfrifoldebau o ran y Rheolau Sefydlog, cyfrifoldebau statudol a chyfrifoldebau goruchwylio yn golygu bod gennym gapasiti cyfyngedig i ymgymryd â gwaith mor ragweithiol. O ystyried faint o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ystod y Senedd hon, a phryderon parhaus ynghylch amrywioldeb mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ac is-ddeddfwriaeth, rydym o'r farn bod angen archwilio'r maes hwn ymhellach.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod craffu manwl ar oblygiadau ariannol Biliau'r Senedd yn hanfodol ac y dylai barhau i fod yn un o arferion y pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd.

Argymhelliad 13. Gan adeiladu ar ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y pwyllgor cyfrifol yn ystyried cynnal adolygiad o effeithiolrwydd Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth yn ystod y Seithfed Senedd.

Craffu ôl-ddeddfwriaethol

Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

128. Sefydlwyd rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Deddf 2005).[129] Gwnaeth Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

[129] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (c. 10)

(Cymru) 2019 (Deddf 2019) ailddatgan darpariaethau o fewn Deddf 2005 ond roedd hefyd yn cynnwys pwerau newydd i'r Ombwdsmon.[130]

129. Roedd Adran 73 o Ddeddf 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd "cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd, baratoi a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod 5 mlynedd". Roedd Deddf 2019 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd "ymgynghori â'r cyfryw bersonau sydd, ym marn y Cynulliad, yn briodol" yn rhan o'r adolygiad hwnnw. Roedd y cyfnod pum mlynedd yn mynd o ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol hyd at 21 Mai 2024.[131]

130. Yn unol â Rheol Sefydlog 18A.2(i), y Pwyllgor oedd yn gyfrifol am adolygu Deddf 2019.[132]

131. Er i'r cyfnod pum mlynedd ddod i ben ym mis Mai 2024, nid oedd modd i'r Pwyllgor ddechrau ei ymchwiliad tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn[133] oherwydd cyfarwyddyd gan y Senedd i gynnal adolygiad o'r gweithrediadau, y prosesau a'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gan yr Ombwdsmon (ystyrir rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn ym Mhennod 5).[134]

132. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad a chynhaliodd nifer o sesiynau tystiolaeth i lywio ei adolygiad.[135]

133. Daeth adroddiad y Pwyllgor i'r casgliad bod Deddf 2019 wedi rhoi sylfaen statudol effeithiol ar gyfer gwaith yr Ombwdsmon. Roedd y mwyafrif o'r argymhellion yn canolbwyntio ar ffyrdd y gallai'r Ombwdsmon wella'r broses bresennol er mwyn darparu gwasanaeth hyd yn oed gwell i'r cyhoedd. Ni chafwyd unrhyw alwadau am newidiadau mawr i'r pwerau a roddir i'r Ombwdsmon drwy Ddeddf 2019.[136]

[130] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3)
[131] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Adran 73
[132] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2026
[133] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 12 Rhagfyr 2024
[134] Y Pwyllgor Cyllid, Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
[135] Y Pwyllgor Cyllid, Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019
[136] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad: Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

134. Derbyniodd yr Ombwdsmon[137] a Llywodraeth Cymru[138] ill dau yr argymhellion a wnaed iddynt, fodd bynnag nid yw'r Pwyllgor wedi cael diweddariad ar waith i weithredu'r argymhellion.

Barn y Pwyllgor

135. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod ei adolygiad o Ddeddf 2019 yn dangos yn glir pa mor werthfawr a phwysig yw gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol. Rydym yn croesawu'r rôl adeiladol sydd gan waith craffu o'r fath o fewn y cylch deddfwriaethol ehangach, gan sicrhau bod deddfau a gaiff eu pasio gan y Senedd yn parhau i wasanaethu'r cyhoedd yn effeithiol, yn cyflawni'r amcanion a fwriedir ac yn rhoi gwerth am arian. Rydym hefyd yn credu ym mhwysigrwydd monitro perfformiad deddfwriaeth yn y byd go iawn a'r angen i waith craffu barhau ar ôl i Ddeddfau gael eu gweithredu.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol barhau i fonitro perfformiad ariannol deddfwriaeth ar ôl ei gweithredu ac ystyried pwysigrwydd adolygiadau ôl-weithredu o ran craffu ar oblygiadau ariannol Biliau er mwyn sicrhau bod Deddfau'n cyflawni eu hamcanion datganedig ac yn rhoi gwerth am arian.

136. Mae'r Pwyllgor yn nodi, er bod yr Ombwdsmon a Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhellion a wnaed iddynt, nad oedd llawer o fanylion ynghylch y cynnydd yn eu cylch a sut y byddent yn cael eu gweithredu. Gan fod rhai o'r argymhellion hyn wedi gofyn am ddiweddariad erbyn hydref 2026, rydym yn annog y pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio'r Ombwdsmon yn y Seithfed Senedd i adolygu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion hyn.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio'r Ombwdsmon yn y Seithfed Senedd adolygu'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn dilyn yr adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd

137. Er mwyn cefnogi ei waith craffu deddfwriaethol, mae'r Pwyllgor wedi gweithredu ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'i randdeiliaid.

[137] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2025
[138] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor Cyllid, 17 Tachwedd 2025

138. Fel rhan o'i ymgynghoriad ar gyfer yr adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf 2019, cytunodd y Pwyllgor i dderbyn ymatebion llafar i'r ymgynghoriad yn ogystal â'r rhai a gyflwynwyd yn ysgrifenedig. Gwnaed y penderfyniad hwn i sicrhau bod yr adolygiad ar gael i ddemograffeg ehangach, yn unol â darpariaethau Deddf 2019, sy'n galluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwynion ar lafar er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth hwn ar gael i bawb sydd ei angen.

139. Ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau ariannol Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yn ystod hydref 2025,[139] sydd â'r nodd o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain (BSL)[140]. Cytunodd y Pwyllgor y dylai defnydd o BSL fod â rhan allweddol yn ystod ei waith craffu ac aeth ati i sicrhau:

- bod gwasanaeth dehongli BSL ar gael ar gyfer y ddwy sesiwn dystiolaeth ar y Bil a ddarlledwyd yn fyw ar Senedd.TV;
- bod trosolwg o ganfyddiadau'r Pwyllgor wedi'i gynnwys yn y crynodeb BSL o adroddiadau Cyfnod 1;
- bod Llywodraeth Cymru wedi darparu ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor yn BSL hefyd.[141]

Barn y Pwyllgor

140. Mae'r Pwyllgor yn falch o'i ymrwymiad i sicrhau bod gwaith craffu yn hygyrch, yn gynhwysol, ac yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'r Senedd yn eu gwasanaethu.

141. Rydym o'r farn bod sefydlu proses glir, sydd wedi'i chytuno ymlaen llaw, ar gyfer ymdrin â chyflwyniadau llafar fel rhan o'n gwaith o adolygu Deddf 2019 yn gam cadarnhaol ymlaen. Yn yr un modd, yn ein barn ni mae darparu gwasanaeth dehongli BSL yn enghraifft o arfer dda ar gyfer sesiynau craffu yn y dyfodol lle mae hygyrchedd, hawliau iaith, neu ystyriaethau cydraddoldeb yn ganolog i fwriad y polisi.

142. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y datblygiadau hyn yn nodi symudiad ystyrlon tuag at ymgysylltu mwy arloesol a chynhwysol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, ac yn annog y pwyllgor olynol i ystyried mabwysiadu dulliau tebyg lle bo'n briodol.

[139] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)
[140] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 1
[141] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol ystyried ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'i randdeiliaid i gefnogi gwaith ymgysylltu ehangach a gwneud gwaith craffu'r pwyllgor yn fwy cynhwysol.

5. Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

143. Mae Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn gyrff sy'n cael eu cyllido'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Comisiwn y Senedd;
- Swyddfa Archwilio Cymru (SAC);
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon);
- Comisiwn Etholiadol (mewn perthynas ag etholiadau a refferenda wedi eu datganoli Cymru, fel sy'n ofynnol o dan baragraff 16A o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000).

144. Mae'n ofynnol i bob un o'r cyrff hyn gyflwyno cyllideb neu amcangyfrif i'w gymeradwyo gan y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 20.

145. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am graffu ar gyllidebau/amcangyfrifon Comisiwn y Senedd, Archwilio Cymru a'r Ombwdsmon. Mae Pwyllgor y Llywydd yn gyfrifol am graffu ar amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol.

146. Yn ystod y Chweched Senedd, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor hefyd wedi cynnwys goruchwyliaeth o SAC a'r Ombwdsmon.[142]

Datganiad o Egwyddorion

147. Yn ystod y Bumed Senedd, cynhaliodd y Pwyllgor blaenorol ymchwiliad byr i ariannu Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, gyda'r nod o sicrhau bod dull cyson yn cael ei gymryd wrth baratoi eu cynigion cyllideb blynyddol.[143] Wedi hynny, cyhoeddodd Ddatganiad o Egwyddorion (yr Egwyddorion) yn 2019 i roi arweiniad i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol o ran paratoi eu cynigion cyllideb blynyddol.[144]

148. Mae paragraff 9 o'r Egwyddorion yn rhoi ymrwymiad y bydd y Pwyllgor yn adolygu'r ddogfen yn ystod y flwyddyn weithredu ac o bryd i'w gilydd ar ôl hynny. Adolygwyd yr Egwyddorion yn 2020 a ni chyflwynwyd unrhyw newidiadau. Ar ddechrau'r Chweched Senedd, cadarnhaodd y Pwyllgor hwn eu bod yn parhau i

[142] Adroddiad y Pwyllgor Busnes: Teitlau a chylchoedd gorchwyl Pwyllgorau'r Chweched Senedd, Mehefin 2021
[143] Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i ariannu cyrff a ariennir yn uniongyrchol, Mawrth 2019
[144] Datganiad o egwyddorion y mae Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru yn disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol eu hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol, Mai 2019

gael eu defnyddio[145] ac awgrymodd eu bod yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y Comisiwn Etholiadol er mwyn sicrhau dull cyson.[146] Nododd Pwyllgor y Llywydd y llythyr yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2021, a chytunodd i fabwysiadu'r Egwyddorion a gofynnodd i'r Comisiwn Etholiadol roi sylw iddo wrth baratoi ei gynigion cyllidebol.[147]

149. Ym mis Ebrill 2023, penderfynodd y Pwyllgor ei bod yn amser priodol i edrych unwaith eto ar yr Egwyddorion. Ysgrifennodd y Pwyllgor at bob corff a ariennir yn uniongyrchol[148] ac at Lywodraeth Cymru[149] i gasglu adborth, asesu a oedd yr Egwyddorion yn dal i fod yn effeithiol ac yn berthnasol, a nodi unrhyw feysydd y gallai fod angen eu diweddaru neu eu mireinio.

150. Ar ôl ystyried ymatebion gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol[150] a'r Gweinidog ar y pryd[151], nododd y Pwyllgor gefnogaeth eang i'r Egwyddorion a oedd yn dangos eu bod yn parhau i fod yn effeithiol, yn berthnasol ac yn briodol. Daethom i'r casgliad nad oedd angen unrhyw newidiadau i'r Egwyddorion, gan nodi mai eu gwerth yw rhoi arweiniad glir, lefel uchel a sylfaen gyson ar gyfer gwaith craffu.[152]

151. Myfyriodd y Pwyllgor ar adborth bod defnyddioldeb y wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio gwaith cynllunio cyllidebol y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn gyfyngedig, a gofynnodd i'r Gweinidog ar y pryd ystyried a ellid rhannu unrhyw wybodaeth ychwanegol.[153]

152. Er y nododd fod ansicrwydd ynghylch sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru ei hun yn cyfyngu ar lefel y manylion y gall Llywodraeth Cymru eu cynnig am y blynyddoedd i ddod, dywedodd y Gweinidog ar y pryd ei bod yn barod i archwilio a ellid darparu gwybodaeth ychwanegol dros y tymor hwy, yn seiliedig ar wahanol senarios ariannu.[154]

---

[145] Datganiad o egwyddorion y mae Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru yn disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol eu hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol, Gorffennaf 2021
[146] Llythyr at Gadeirydd Pwyllgor y Llywydd gan y Pwyllgor Cyllid, 15 Gorffennaf 2021
[147] Cofnodion Pwyllgor y Llywydd, 11 Hydref 2021, paragraff 3.2
[148] Llythyr at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol gan y Pwyllgor Cyllid, 4 Mai 2023
[149] Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gan y Pwyllgor Cyllid, 9 Mai 2023
[150] Llythyr gan Gomisiwn y Senedd at y Pwyllgor Cyllid, 23 Mehefin 2023; Llythyr gan Archwilio Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 16 Mehefin 2023; Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 12 Mehefin 2023; Llythyr gan y Comisiwn Etholiadol at y Pwyllgor Cyllid, 8 Mehefin 2023
[151] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 15 Mehefin 2023
[152] Llythyr at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol gan y Pwyllgor Cyllid, 18 Hydref 2023
[153] Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gan y Pwyllgor Cyllid, 18 Hydref 2023
[154] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 14 Tachwedd 2023

153. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 25 Chwefror 2026, cadarnhaodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd fod y Comisiwn "wedi ffeindio'r datganiad o egwyddorion yn ganllaw defnyddiol", gan ychwanegu:

> *"Rŷn ni bob amser wedi trio cyllidebu yn dryloyw ac yn fanwl, cyllidebu yn ddarbodus, wrth gwrs, a dim ond gofyn am beth rŷn ni ei angen, a seilio'r cais yna ar ddata ac ar dystiolaeth, ac yna ei wario fe yn ôl cynllun, ac, wrth gwrs, ystyried y cyd-destun ehangach o safbwynt gwariant cyhoeddus."*[155]

Barn y Pwyllgor

154. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr Egwyddorion yn parhau i osod disgwyliadau clir ynghylch sut y dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol reoli ac ymdrin â'u cyllidebau. Yn benodol, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai cyllidebau/amcangyfrifon Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol adlewyrchu cyd-destun ehangach y sector cyhoeddus yng Nghymru ac na ddylid eu hystyried ar wahân i gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus eraill. Nodwn hefyd fod yr Egwyddorion wedi'u mabwysiadu gan Bwyllgor y Llywydd ac y dylai'r Comisiwn Etholiadol roi sylw iddynt wrth baratoi eu cyllidebau.

155. Er bod ceisiadau am gyllid gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn cael eu hystyried ar eu rhinweddau eu hunain, rhaid i'r Cyrff fod yn ymwybodol o effaith y galw cyffredinol ar Gronfa Gyfunol Cymru a'r hinsawdd economaidd a chyllidol ehangach wrth baratoi ceisiadau am gyllid. Er mwyn sicrhau y gwneir cynnydd arnynt yn y Seithfed Senedd, rydym yn galw ar ein pwyllgor olynol i'w hadolygu'n rheolaidd fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas at y diben.

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol barhau i adolygu'r Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn rheolaidd.

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn annog ei bwyllgor olynol i fod yn ymwybodol o'r galw cronnus ar Gronfa Gyfunol Cymru wrth ystyried y ceisiadau unigol am gyllid gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

[155] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 40

Newid Gweithdrefnau Cyllideb Atodol

156. Argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd yn ei Adroddiad Gwaddol y dylai'r Pwyllgor yn y Chweched Senedd "ymgymryd â gwaith pellach i ystyried a ddylid adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â chyllidebau atodol."[156]

157. Fel rhan o adolygiad y Pwyllgor o'r Egwyddorion, gwnaethom hefyd wahodd Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i rannu eu barn ar y broses ar gyfer y gyllideb atodol ac i wneud sylwadau ynghylch a yw'r trefniadau yn rhoi digon o hyblygrwydd.[157]

158. I ddechrau, ni fynegodd y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol lawer o gefnogaeth i newidiadau sylweddol i'r Rheolau Sefydlog sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r gyllideb atodol.[158] Fodd bynnag, cwestiynodd y Pwyllgor a yw'r broses bresennol yn parhau i fod yn briodol, yn enwedig mewn senario lle mae Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn gofyn am gyllid ychwanegol er i Lywodraeth Cymru nodi nad yw'n bwriadu cyflwyno cyllideb atodol i ryddhau'r arian. Er ei bod yn arfer hirsefydlog i Lywodraeth Cymru gynnwys amrywiadau Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn ei chynnig cyllideb atodol, nid yw hyn yn ofynnol yn benodol yn ôl y Rheolau Sefydlog. Felly, ceisiodd y Pwyllgor safbwyntiau pellach ynghylch a ddylid gwneud y rheolau'n fwy eglur i gael gwared ar amwysedd.[159]

159. Er nad oedd y Pwyllgor yn cefnogi cynnig yr Archwilydd Cyffredinol i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol cyn unrhyw gyllideb atodol, gwnaethom gydnabod yr heriau ymarferol sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd ynghylch amseru. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog ar y pryd yn gofyn am gyfathrebu rhagweithiol ac amserol am unrhyw gyllidebau atodol arfaethedig.[160]

160. Mewn ymateb, eglurodd y Gweinidog ar y pryd mai'r misoedd cyhoeddi arferol yw mis Mehefin a mis Chwefror, ond bod yr union amseriadau'n dibynnu ar galendr y Senedd ac amcangyfrifon Llywodraeth y DU. Nododd fod Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn cael eu hysbysu ar yr un pryd â'r Pwyllgor, a

[156] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd, Mawrth 2021, Argymhelliad 11
[157] Llythyr at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol gan y Pwyllgor Cyllid, 4 Mai 2023
[158] Llythyr gan Gomisiwn y Senedd at y Pwyllgor Cyllid, 23 Mehefin 2023; Llythyr gan Archwilio Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 16 Mehefin 2023; Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 12 Mehefin 2023; Llythyr gan y Comisiwn Etholiadol at y Pwyllgor Cyllid, 8 Mehefin 2023
[159] Llythyr at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol gan y Pwyllgor Cyllid, 18 Hydref 2023
[160] Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gan y Pwyllgor Cyllid, 18 Hydref 2023

chadarnhaodd y byddai'n anfon copi o'r llythyr hwn yn uniongyrchol atynt i ffurfioli cyfathrebu ar ddyddiadau cyllidebau atodol.[161]

161. Ar 1 Gorffennaf 2025, gwnaethom ysgrifennu eto at yr Ysgrifennydd Cabinet yn crynhoi'r materion a godwyd gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar y mater hwn ac yn gofyn am safbwyntiau ar y cynigion ac amserlenni ar gyfer dod i gytundeb.[162] Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Er y gallwn weld gwerth mewn ffurfioli elfennau o'r cynigion, nid wyf yn credu ei bod yn hanfodol gwneud unrhyw un o'r newidiadau cyn i'r pecyn mwy cynhwysfawr o newidiadau gael ei ystyried gan y Senedd newydd."*[163]

Barn y Pwyllgor

162. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol am rannu eu safbwyntiau ac am ymgysylltu yn ystod y Chweched Senedd mewn perthynas â ffyrdd y gellid gwella gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer cyllidebau atodol fel y maent yn berthnasol i gyrff o'r fath. Rydym o'r farn bod y ceisiadau hyn yn gymesur ac yn synhwyrol ac rydym yn siomedig na lwyddwyd i fwrw ymlaen â hwy yn ystod y Senedd hon.

163. Fodd bynnag, o ystyried y safbwyntiau clir a fynegwyd gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, credwn y dylai gwaith i fynd i'r afael â diffygion yn y gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol fel y maent yn berthnasol i gyrff o'r fath barhau yn y Seithfed Senedd.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol weithio i adolygu gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol fel y maent yn berthnasol i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, gan sicrhau bod y ceisiadau cymesur a godwyd yn ystod y Chweched Senedd yn cael sylw a bod y diffygion gweithdrefnol a nodwyd yn cael eu datrys.

Comisiwn y Senedd

Ymgysylltu ynghylch y Gyllideb

164. Yn ôl Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd:

[161] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 14 Tachwedd 2023
[162] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 1 Gorffennaf 2025
[163] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 22 Gorffennaf 2025

> *"Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Senedd gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru."*[164]

165. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adrodd ar y Gyllideb Ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn nodi:

> *"Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymell amrywiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn."*[165]

166. Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2025-26, gwnaethom argymell y dylai'r Comisiwn ystyried ffurfioli ei waith ymgysylltu ag Aelodau o'r Senedd a Grwpiau'r Pleidiau cyn cyhoeddi ei Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27 ac y dylai digon o amser gael ei neilltuo i sicrhau bod canlyniadau'r gwaith ymgysylltu hwn yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol.[166]

167. Eglurodd y Llywydd pa mor ddefnyddiol oedd y dull hwn a fabwysiadwyd ganddynt fel rhan o'r broses o bennu eu Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27:

> *"... one additional aspect that I think has been very helpful in providing greater ownership by the whole Senedd and all Members of the budget that the Commission does take through was an area of work that was started by Hefin David as he became Senedd Commissioner. He was very keen to ensure that more Members had an early ability to feed into budget asks within a Commission budget, and have views on some tightening, where some things could change, by involving the political groups. And that was a new venture by him, led by him, and I think has proved fruitful ..."*[167]

[164] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru: Rheol Sefydlog 20.13
[165] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2026
[166] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2026-27, Hydref 2025
[167] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 36

168. Ychwanegodd y Llywydd ei bod yn gobeithio y bydd Comisiwn newydd, a Chomisiynydd cyllid arweiniol, yn parhau â'r gwaith yn y dyfodol.[168]

Diwygio'r Senedd

169. Ar gais y Pwyllgor, darparodd Comisiwn y Senedd gyfres amser yn dangos sut mae ei gyllideb wedi tyfu o ganlyniad i Ddiwygio'r Senedd. Mae Tabl 1 yn dangos y wybodaeth hon ac yn cynnwys ffigurau Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25[169], a gwybodaeth o Gyllideb Ddrafft 2026-27, sy'n cynnwys ffigurau dangosol ar gyfer 2027-28 a 2028-29[170]. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn nodi bod ffactorau chwyddiant o 2.5 y cant wedi'u hystyried ar gyfer 2027-28 a 2028-29. Nid yw'r costau hyn yn cynnwys yr Ail Gyllideb Atodol 2025-26, a awdurdodwyd ynghyd ag Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2026.[171]

Tabl 1 Cyllideb y Comisiwn cyn ac ar ôl Diwygio'r Senedd: Lefel uchel (£'000)

Pennawd y Gyllideb	2024-25 Tachwedd '23 £'000	2025-26 (Atodol #1) £'000	2026-27 Drafft £'000	Newid CA 25-26 i Ddrafft 26-27 £'000	Newid CA 25-26 i Ddrafft 26-27 %	2027-28 Dangosol £'000	2028-29 Dangosol £'000
Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Comisiwn							
Cyflogau Staff a Chostau Cysylltiedig	£29,663	£32,801	£34,031	£1,230	3.7%	£35,052	£36,104

[168] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 36
[169] Comisiwn y Senedd, Cyllideb 2024-25, Tachwedd 2023 tudalen 24
[170] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 29
[171] Comisiwn y Senedd, Ail Gyllideb Atodol 2025-26, Memorandwm Esboniadol, Chwefror 2026

Pennawd y Gyllideb	2024-25 Tachwedd '23 £'000	2025-26 (Atodol #1) £'000	2026-27 Drafft £'000	Newid CA 25-26 i Ddrafft 26-27 £'000	Newid CA 25-26 i Ddrafft 26-27 %	2027-28 Dangosol £'000	2028-29 Dangosol £'000
Adeiladau a Chyfleusterau	£5,991	£6,229	£6,399	£170	2.7%	£6,546	£6,698
Costau TGCh	£2,731	£2,944	£3,534	£590	20.0%	£3,603	£3,661
Costau Eraill	£2,061	£2,172	£2,136	-£36	-1.7%	£2,160	£2,174
Cyfanswm Gwariant Refeniw	**£40,446**	**£44,146**	**£46,100**	**£1,954**	**4.4%**	**£47,361**	**£48,637**
Cyfanswm Incwm	-£100	-£61	-£85	-£24	39.3%	-£85	-£85
Gwariant Cyfalaf	£500	£500	£500	£0	0.0%	£500	£500
Cronfa Prosiectau	£1,000	£2,000	£1,500	-£500	-25.0%	£1,500	£1,500
Arbedion i'w Nodi	-£315	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm yr Adnoddau Gweithredol	**£41,531**	**£46,585**	**£48,015**	**£1,430**	**3.1%**	**£49,276**	**£50,552**
Taliadau Llog	£610	£600	£600	£0	0.0%	£600	£600
Taliadau Dibrisiant	£4,750	£5,000	£5,027	£27	0.5%	£5,027	£5,027

Pennawd y Gyllideb	2024-25 Tachwedd '23 £'000	2025-26 (Atodol #1) £'000	2026-27 Drafft £'000	Newid CA 25-26 i Ddrafft 26-27 £'000	Newid CA 25-26 i Ddrafft 26-27 %	2027-28 Dangosol £'000	2028-29 Dangosol £'000
Cyllidebau Prosiect wedi'u Clustnodi							
Costau Diwygio'r Senedd	£2,065	£6,494	£6,345	-£149	-2.3%	£6,780	£6,982
Bae 32*	£1,531	£2,401	£3,097	£696	29.0%	£1,004	£745
Cyfanswm y Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Comisiwn	**£50,487**	**£61,080**	**£63,084**	**£2,004**	**3.3%**	**£62,687**	**£63,906**
Gwariant sy'n Gysylltiedig ag Aelodau							
Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig	£19,180	£20,823	£21,232	£409	2.0%	£23,098	£23,939
Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig o ganlyniad i Ddiwygio'r Senedd	£0	£0	£12,739	£12,739	..	£13,859	£14,364
Cyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Safonau	£101	£106	£110	£4	3.8%	£112	£115

Pennawd y Gyllideb	2024-25 Tachwedd '23 £'000	2025-26 (Atodol #1) £'000	2026-27 Drafft £'000	Newid CA 25-26 i Ddrafft 26-27 £'000	Newid CA 25-26 i Ddrafft 26-27 %	2027-28 Dangosol £'000	2028-29 Dangosol £'000
Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol	£627	£609	£607	-£2	-0.3%	£620	£641
Gwariant sy'n Gysylltiedig ag Etholiad	£0	£1,000	£4,500	£3,500	350.0%	£0	£0
Costau Cyllid Pensiwn Aelodau	£1,800	£1,000	£400	-£600	-60.0%	£400	£400
Cyfanswm Cyllideb Comisiwn y Senedd	**£72,195**	**£84,618**	**£102,672**	**£18,054**	**21.3%**	**£100,775**	**£103,365**

Ffynhonnell: Cyllideb Comisiwn y Senedd 2024-25, (Tachwedd 2024) a Cyllideb ddrafft Comisiwn y Senedd 2026-27, Tabl 2, Dadansoddiad Ymchwil y Senedd

170. Eglurodd y Llywydd sut roedd y Comisiwn wedi bod yn rheoli costau Diwygio'r Senedd yn ystod y Chweched Senedd:

> *"... we've developed by having discrete budget lines for the growth budgets that we've been undertaking, as Senedd expansion and Senedd reform and Bay 32, and those have been discrete budget lines on top of business as usual. As we move on to the next stage following Senedd reform, they become business as usual. Running the new Senedd of 96 Members, with political staff and with Commission staff, that becomes the business as usual."*[172]

171. Ychwanegodd y Prif Swyddog Cyllid:

> *"... there will be a point at which our assumptions for Senedd reform will become business as usual. At the moment, there are still a number of decisions to be taken by the seventh Senedd where our budgeting is based on assumptions ... So, where we've provided forward looks at figures, they're based on reasonable assumptions around pay inflation and non-staff inflation, as well as probably reflecting some of the assumptions around Senedd reform, which are yet to be defined for us."*[173]

Bae Caerdydd 2032

172. Sefydlwyd prosiect Bae Caerdydd 2032 (Bae 2032) i ystyried opsiynau ar gyfer adeilad yn y dyfodol i Gomisiwn y Senedd cyn i les Tŷ Hywel ddod i ben yn 2032. Cymeradwyodd y Comisiynwyr Achos Amlinellol Strategol a baratowyd gan Avison Young (cynghorwyr proffesiynol y Comisiwn) ym mis Rhagfyr 2023. Roedd hyn yn golygu y bu modd datblygu Achos Busnes Amlinellol a "gweithio ymhellach ar y fersiwn gychwynnol o'r ffordd ymlaen a ffefrir" sef "datblygu cyfleuster newydd ar blot Sgwâr y Cynulliad y drws nesaf".[174]

173. Ar 20 Ionawr 2025, rhoddodd Comisiwn y Senedd awdurdod i'r prosiect ddechrau.[175] Lansiwyd proses gaffael gystadleuol drwy gyhoeddi Hysbysiad Contract ar 28 Ionawr 2025, a oedd yn nodi manylebau o ran lle a gofynion y

[172] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 66
[173] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 67
[174] Comisiwn y Senedd, Cofnodion, 11 Rhagfyr 2023
[175] Comisiwn y Senedd, Cofnodion, 20 Ionawr 2025

byddai angen i unrhyw ddarpar gynigwyr eu bodloni. Nid oedd yr Hysbysiad Contract yn nodi gwerth y contract na'r model ariannu, a allai gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) les meddiannaeth, les rydd-ddaliadol neu les stribed incwm.[176]

174. Cyflwynodd y cynigwyr gynigion ym mis Mehefin 2025, ac roedd disgwyl i'r broses dendro ddod i ben yng nghanol mis Hydref 2025.[177]

175. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â Bae 2032 yn £3.097 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27. Mae'r costau hyn "yn ymwneud â gwasanaethau proffesiynol i'r cynigydd llwyddiannus ddatblygu ei ddyluniadau cysyniad hyd at lefel o aeddfedrwydd a hyder costio a fydd yn caniatáu i'r Comisiwn ystyried Achos Busnes Llawn yn ystod 2026".[178]

176. Pan ofynnwyd iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, dywedodd y Llywydd:

> *"... fe aethom ni allan i dendr cyhoeddus i edrych am gynigion ar gyfer darparu'r gofynion swyddfeydd oedd gennym ni y llynedd. Mae'r broses yna wedi'i chwblhau, ac rydym ni wrthi ar hyn o bryd yn asesu'r broses yna ac yn trafod cytundebu yn deillio allan o'r broses yna."*[179]

177. Ychwanegodd:

> *"... bydd y penderfyniad terfynol, gydag achos busnes llawn, yn cael ei asesu a chymeradwyo gan y Comisiwn nesaf—a hynny siŵr o fod yn yr hydref eleni—ac felly, er y bydd y rhan fwyaf o'r broses efallai wedi'i chynnal o fewn y Comisiwn yma, trosglwyddo'r penderfyniad i'r Comisiwn a'r Senedd nesaf byddwn ni'n ei wneud ar yr hyn fydd yn digwydd o 2032 ymlaen."*[180]

178. O ran ymgysylltu ag Aelodau, dywedodd y Llywydd:

> *"... mae'r Aelodau wedi cael y cyfle i amlinellu'r hyn maen nhw'n dymuno ei weld o ran swyddfeydd o 2032 ymlaen fel rhan o'r*

[176] Tendr: Senedd Future Accommodation, 28 Ionawr 2025
[177] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Hydref 2025, paragraff 106
[178] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalennau 18 a 29
[179] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 15
[180] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 11

> *broses, erbyn hyn rhyw ddwy flynedd, 18 mis nôl, siŵr o fod, cyn oedd y tendr yn mynd allan gyda'r gofynion."*[181]

179. Rhoddodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd fanylion hefyd am grŵp cyfeirio Aelodau Bae 32, gan egluro ei fod yn grŵp lle cynhaliwyd gweithdai helaeth ynghylch opsiynau ac anghenion defnyddwyr. Ychwanegodd fod y lefelau ymgysylltu yn rhagorol ac wedi rhoi set ddata dda o ran anghenion defnyddwyr ar gyfer Aelodau.[182]

Barn y Pwyllgor

180. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sylweddol i gyllideb Comisiwn y Senedd yn ystod y Chweched Senedd i gyfrif am gostau Diwygio'r Senedd a'r ffordd y mae'r Comisiwn wedi cyflwyno'r costau hynny fel cyllidebau wedi'u clustnodi er mwyn sicrhau tryloywder. Nodwn hefyd y gwaith craffu a wnaeth y Pwyllgor ar gostau yn ymwneud â Diwygio'r Senedd yn ystod y Chweched Senedd, drwy sesiynau tystiolaeth cyllideb blynyddol, sesiynau yn ôl yr angen ar brosiect Bae 2032, sesiynau briffio preifat a sesiynau tystiolaeth mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

181. Rydym o'r farn bod dull y Comisiwn o ymgysylltu â'r Pwyllgor a Grwpiau'r Pleidiau yn y Senedd yn ystod toriad yr haf cyn cyhoeddi ei Gyllideb Ddrafft yn yr hydref, a gyflwynwyd gyntaf gan y diweddar Hefin David, yn effeithiol ac y dylai barhau. Mae hwn yn syniad arloesol gwerthfawr ac un rydym yn annog yn gryf y dylid ei ailgyflwyno ar ôl yr etholiad.

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd ymgysylltu â'n pwyllgor olynol a Grwpiau'r Pleidiau cyn toriad yr haf a chyn cyhoeddi ei Gyllideb Ddrafft, ac yn annog y dylai'r dull effeithiol hwn gael ei ailgyflwyno ar ôl yr etholiad.

182. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y Comisiwn, yn naturiol, yn mynd drwy gyfnod pontio ar ddechrau'r Senedd nesaf. Nodwn y bydd nifer o'r Comisiynwyr presennol yn ymddiswyddo yn etholiad mis Mai ac rydym yn ceisio sicrwydd bod strwythurau cadarn ar waith i sicrhau proses bontio ddidrafferth o un Comisiwn i'r nesaf fel nad yw arbenigedd a gwybodaeth yn cael eu colli. Mae'n hanfodol bod gwydnwch corfforaethol yn cael ei gynnal o ystyried bod y Senedd ar fin symud i gyfnod newydd.

[181] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 15
[182] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Chwefror 2026, paragraff 22

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd sicrhau bod strwythurau cadarn ar waith i gefnogi proses bontio ddidrafferth ar ddechrau tymor nesaf y Senedd, gan ddiogelu gwydnwch sefydliadol a chadw arbenigedd.

183. O ran prosiect Bae 2032, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r diweddariadau a roddwyd gan y Comisiwn a byddai'n disgwyl i'r Comisiwn newydd barhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â'n pwyllgor olynol mewn perthynas â'r materion hyn. Rydym wedi argymell yn flaenorol y dylai'r Comisiwn roi diweddariadau rheolaidd ar y prosiect, gan gynnwys unrhyw effeithiau cyllidebol, ac y dylai barhau i fynd i sesiynau tystiolaeth gyhoeddus ar y prosiect, ar gais.[183] Rydym yn ailadrodd hyn ac yn credu ymhellach y dylai pwyllgor cyfrifol y Seithfed Senedd gael rôl glir o ran craffu ar y cynigion sy'n ymwneud â phrosiect Bae 2032, gan sicrhau bod diwydrwydd dyladwy wedi digwydd cyn unrhyw gytundeb a bod y Senedd yn cael ei hysbysu cyn bod angen iddi wneud penderfyniad.

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol fod â rôl ddiffiniedig mewn perthynas â chraffu ar brosiect Bae Caerdydd 2032, ac y dylai Comisiwn nesaf y Senedd roi diweddariadau rheolaidd am ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r prosiect, gan gynnwys unrhyw effeithiau cyllidebol, ac y dylai'r Comisiwn barhau i fynd i sesiynau tystiolaeth gyhoeddus ar y prosiect, ar gais.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

184. Yn y Bumed Senedd, bu'r Pwyllgor yn ystyried Amcangyfrif yr Ombwdsmon, a bu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn craffu ar waith yr Ombwdsmon mewn meysydd eraill, gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol.[184]

185. Fodd bynnag, ers dechrau'r Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor wedi bod yn llwyr gyfrifol am oruchwylio'r Ombwdsmon[185] fel y nodir yn Rheol Sefydlog 18A.[186] Roedd hyn yn golygu bod y Pwyllgor yn gyfrifol am enwebu'r Ombwdsmon presennol yn 2021-22,[187] a'i fod wedi cael ei gyfarwyddo hefyd gan y Senedd i gynnal adolygiad o'r gweithrediadau, y prosesau a'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gan yr Ombwdsmon a'r adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

[183] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2026-27, Hydref 2025, Argymhelliad 5
[184] Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 18A – Goruchwylio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Tachwedd 2019
[185] Pwyllgor Busnes, Pwyllgorau yn y Chweched Senedd: Teitlau a chylchoedd gwaith, Mehefin 2021
[186] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog, Ionawr 2026
[187] Pwyllgor Cyllid, Enwebiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2022

Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

186. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ei waith craffu blynyddol ar waith yr Ombwdsmon yn nhymor yr hydref yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol (sydd fel arfer yn cael ei osod ym mis Gorffennaf) a chyflwyno'r amcangyfrif (sydd fel arfer yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor ym mis Medi). Mae Rheol Sefydlog 20.24 yn nodi bod yn rhaid i'r pwyllgor cyfrifol osod adroddiad gan gynnwys yr amcangyfrif erbyn 22 Tachwedd fan bellaf.[188]

187. Ystyriwyd Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2023-24 gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2022.[189] Er bod y Pwyllgor yn cefnogi cynlluniau'r Ombwdsmon, roedd yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. O ganlyniad, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ombwdsmon yn gofyn iddi fyfyrio ar ei blaenoriaethau ariannu ar gyfer 2023-24 a chyflwyno Amcangyfrif diwygiedig.[190]

188. Ailgyflwynodd yr Ombwdsmon ei Hamcangyfrif, ac ystyriodd y Pwyllgor yr Amcangyfrif a chytuno arno yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2022.[191]

Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

189. Cyhoeddodd yr Ombwdsmon ar 9 Ebrill 2024 y bydd "adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal i roi sicrwydd bod ei brosesau cod ymddygiad yn gadarn ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol".[192] Roedd hyn yn dilyn honiadau bod arweinydd tîm yn Nhîm y Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon wedi mynegi barn wleidyddol bersonol a oedd yn cynnwys iaith sarhaus ar y cyfryngau cymdeithasol.[193]

190. Ar 17 Ebrill 2024, pasiodd y Senedd gynnig yn cyfarwyddo'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.2 i gynnal adolygiad o'r gweithrediadau, y prosesau a'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.[194]

[188] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog, Ionawr 2026
[189] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 12 Hydref 2022
[190] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 13 Hydref 2022
[191] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 20 Hydref 2022
[192] Datganiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 9 Ebrill 2024
[193] Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 15 Ebrill 2024
[194] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Ebrill 2024, paragraffau 395-449

191. Er mwyn llywio ei adolygiad, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Ombwdsmon cyn i'r Adolygiad Annibynnol ddechrau i drafod y materion a arweiniodd at yr adolygiad a materion eraill yn ymwneud â'r ymchwiliad.[195]

192. Cyhoeddwyd adroddiad yr Adolygiad Annibynnol ar 27 Medi 2024.[196] Croesawodd yr Ombwdsmon yr adroddiad "a'r cadarnhad fod y broses penderfynu, o ran cwynion Cod Ymddygiad, yn rhydd rhag rhagfarn wleidyddol".[197]

193. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Adolygiad Annibynnol, trafododd y Pwyllgor y canfyddiadau gyda'r Ombwdsmon a cheisiodd sicrwydd ynghylch sut y byddai'r argymhellion a wnaed yn cael eu gweithredu.[198]

194. Yn ei adroddiad daeth y Pwyllgor i naw casgliad a gwnaeth bedwar argymhelliad. Daethom i'r casgliad ei bod yn angenrheidiol ac yn gywir i'r Ombwdsmon gomisiynu'r Adolygiad Annibynnol, ac rydym wedi ein sicrhau na chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o ddidueddrwydd gwleidyddol a bod penderfyniadau a wnaed gan yr Ombwdsmon a'i staff yn seiliedig ar ffeithiau a thystiolaeth yn unig ac nad oeddent wedi'u dylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol.[199]

Barn y Pwyllgor

195. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad yr Ombwdsmon i weithredu'r holl argymhellion a wnaed yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol a'n hadolygiad ein hunain.

196. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r diweddariadau gan yr Ombwdsmon ar y cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r argymhellion. Er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo, rydym yn annog yr Ombwdsmon i barhau i ymgysylltu â'n pwyllgor olynol fel bod cynnydd yn y maes hwn yn cael ei adolygu'n gyson.

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ei bwyllgor olynol yn parhau i fonitro'r gwaith a wneir gan yr Ombwdsmon mewn ymateb i'r argymhellion a

[195] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 9 Mai 2024
[196] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, Medi 2024
[197] Datganiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 27 Medi 2024
[198] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 10 Hydref 2024
[199] Y Pwyllgor Cyllid, Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Tachwedd 2024

wnaed yn dilyn yr adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Archwilio Cymru

Trosolwg o gyfrifoldebau

197. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn rhoi nifer o swyddogaethau i'r Senedd.[200] Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwylio Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) a SAC wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor hwn yn y Rheolau Sefydlog. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys cymeradwyo cyllideb a chynlluniau ffioedd SAC; adolygu dogfennau allweddol SAC (Cynllun Blynyddol, adroddiadau a chyfrifon); cynghori ar benodi neu ddiswyddo'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd SAC; penodi a diswyddo aelodau SAC nad ydynt yn rhai gweithredol; pennu cyflog a thelerau penodi; penodi archwilwyr allanol SAC; ac ystyried adroddiadau'r archwilwyr ar gyfrifon SAC.[201]

198. Ar 5 Mawrth 2026, nododd y Pwyllgor ohebiaeth a gafodd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn myfyrio ar ei gyfnod yn y rôl ac yn amlinellu rhai o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru.[202]

Penodi Archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru

199. Mae paragraff 34(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd benodi unigolyn yn archwilydd cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ac i bennu telerau'r penodiad. Mae paragraff 34(2) yn caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru argymell unigolyn i'w benodi.[203] Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn dirprwyo cyfrifoldeb am benodi archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor.[204]

200. Yn 2022, cytunodd y Pwyllgor ar broses ar gyfer penodi'r archwilwyr allanol, lle cynhaliodd SAC y broses gaffael gyda chyfranogiad swyddogion Comisiwn y Senedd.[205]

201. Wedi hynny, cynhaliodd Archwilio Cymru broses gaffael agored ar gyfer gwasanaethau archwilio allanol ac argymhellodd Bwrdd SAC y dylid penodi RSM

[200] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3)
[201] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru: Rheol Sefydlog 18
[202] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 26 Chwefror 2026
[203] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3)
[204] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru: Rheol Sefydlog 18.
[205] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnodion (eitem 6), 12 Hydref 2022

am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd yn dechrau ar 2 Tachwedd 2022, gan gynnwys hawl i SAC ymestyn y tymor yn flynyddol hyd at gyfanswm o saith mlynedd (1 Tachwedd 2029). Cytunodd y Pwyllgor i benodi RSM ar 12 Hydref 2022.[206]

202. Hysbysodd Bwrdd SAC y Pwyllgor ei fod wedi cytuno ar ei estyniad blynyddol cyntaf i gyfnod y contract hyd at 1 Tachwedd 2027.[207]

Adolygiad o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

203. Yn ystod y Chweched Senedd, ystyriodd y Pwyllgor waith a etifeddwyd gan ei ragflaenydd yn y Bumed Senedd ar gynigion i ddiwygio Deddf 2013.

204. Cafodd pryderon ynghylch agweddau ar Ddeddf 2013, megis darpariaethau codi ffioedd, trefniadau cworwm a gofynion adrodd, eu codi am y tro cyntaf yn ystod y Pedwerydd Cynulliad yn 2014. Arweiniodd gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol a gynhaliwyd yn y Bumed Senedd[208] at ymgynghoriad ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft[209]. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd y Bil cyn i'r Bumed Senedd gael ei diddymu oherwydd pwysau amser, y pandemig a materion heb eu datrys yn ymwneud â thalu treuliau'r Archwilydd Cyffredinol a darpariaethau anghymhwyso.[210]

205. Yn gynnar yn y Chweched Senedd, nododd y Pwyllgor nad oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi bwrw ymlaen â'r Bil arfaethedig.[211] Mewn gohebiaeth ddilynol, eglurodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd ei safbwynt ar gynigion allweddol y Bil, gan ddatgan "[nid] wyf i'n cytuno â chi bod yr achos ar gyfer y Bil yn un cryf".[212] Gwnaeth y Pwyllgor hysbysu Llywodraeth Cymru y byddai'n parhau i adolygu'r materion, ynghyd â'r cynigion deddfwriaethol cysylltiedig.[213]

206. Ar ôl i Gadeirydd SAC gael ei hanghymhwyso yn 2024 (a drafodir yn ddiweddarach ym Mhennod 6), penderfynodd y Pwyllgor edrych eto ar weithrediad Deddf 2013. Ymgynghorodd y Pwyllgor â'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch y newidiadau i Ddeddf 2013 yr hoffai iddynt gael eu cyflwyno yn nhrefn

[206] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnodion (eitem 6), 12 Hydref 2022
[207] Llythyr gan Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 23 Mawrth 2023
[208] Y Pwyllgor Cyllid (Pumed Senedd), Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[209] Y Pwyllgor Cyllid (Pumed Senedd), Ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus Drafft (Diwygio) (Cymru)
[210] Y Pwyllgor Cyllid (Pumed Senedd), Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft, Mawrth 2021
[211] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 3 Mawrth 2022
[212] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 6 Ebrill 2022
[213] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 16 Mehefin 2022

blaenoriaeth.[214] Nododd ymateb yr Archwilydd Cyffredinol y newidiadau i Ddeddf 2013 yr oedd yn eu hystyried yn hanfodol ac yn ddymunol, ynghyd â newidiadau dymunol i ddeddfwriaeth arall.[215] Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i wrthwynebu elfennau allweddol o gynigion y Bil drafft ac nid oedd yn cefnogi bwrw ymlaen â newid deddfwriaethol.[216]

Barn y Pwyllgor

207. Drwy gydol tymor y Senedd, mae'r Pwyllgor wedi ceisio cyflawni ei swyddogaethau goruchwylio yn ddiwyd, gan sicrhau craffu priodol ar lywodraethiant, rheolaeth ariannol a threfniadau gweithredol SAC.

208. Rydym yn croesawu'r ohebiaeth a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 5 Mawrth 2026 yn myfyrio ar ei gyfnod yn y swydd ac yn tynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd strategol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae'r ymgysylltu hwn yn werthfawr i'n helpu i ddeall y cyd-destun ehangach y mae Archwilio Cymru yn gweithredu ynddo a'r goblygiadau posibl ar gyfer ei waith yn y dyfodol.

209. O ran gweithrediad Deddf 2013, mae'r Pwyllgor yn cydnabod safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil arfaethedig. Er nad yw cynnydd wedi bod yn bosibl yn ystod tymor y Senedd hon, mae'r materion yn parhau i fod yn berthnasol i weithrediad effeithiol trefniadau archwilio cyhoeddus yng Nghymru.

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol archwilio'r materion a nodwyd yn y gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ochr yn ochr â datblygiadau yn ystod y Chweched Senedd, er mwyn ystyried pa opsiynau a allai fod ar gael i fynd i'r afael â'r materion hynny a'u datrys.

[214] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at yr Archwilydd Cyffredinol, 3 Gorffennaf 2024
[215] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol at y Pwyllgor Cyllid, 20 Medi 2024
[216] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 11 Gorffennaf 2025

6. Penodiadau Cyhoeddus

210. Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor wedi bod yn gyfrifol am nifer o benodiadau o fewn ei gylch gwaith, sydd wedi'u crynhoi isod.

Penodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru

211. Mae Rhannau 1 a 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd benodi pum aelod anweithredol o SAC, yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored.[217] Mae penodi aelodau anweithredol SAC wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor yn y Rheolau Sefydlog.[218]

212. Mae penodiad fel aelod anweithredol yn para hyd at bedair blynedd, ac ni ellir penodi unigolyn fwy na dwywaith (paragraff 6 o Atodlen 1). Mae paragraff 5 o Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol penodi Cadeirydd SAC o blith yr aelodau anweithredol, a chaiff y Senedd estyn penodiad y Cadeirydd am ail dymor yn y swydd.[219]

213. Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor wedi cynnal tri ymarfer recriwtio i benodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol SAC.[220] Mae manylion penodiadau'r Pwyllgor wedi'u nodi yn **Atodiad 3**.

214. Mae'r swyddi gwag a ragwelir yn ystod y Seithfed Senedd (yn amodol ar unrhyw newid i aelodaeth gyfredol SAC) wedi'u nodi yn **Atodiad 4**.

Anghymhwyso Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

215. Penodwyd Dr Kathryn Chamberlain gan y Senedd ar 11 Ionawr 2023 i wasanaethu tymor pedair blynedd fel aelod anweithredol a Chadeirydd SAC o 16 Mawrth 2023. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn ddiweddarach ei bod wedi ymgymryd â rôl fel cyfarwyddwr anweithredol annibynnol yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 1 Ionawr 2024.[221]

216. Yn dilyn ymchwiliad pellach, penderfynwyd fod hwn yn benodiad gan, neu ar ran, y Goron, sy'n swydd sy'n anghymwyso o dan baragraff 26 o Atodlen 1 i Ddeddf

[217] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru: Rheol Sefydlog 18.10
[218] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3)
[219] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3), Atodlen 1
[220] Ionawr 2023, Mai 2024 a Mai 2025
[221] Y Pwyllgor Cyllid, Penodi Aelodau Anweithredol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, Mai 2024, tudalen 3

2013. O ganlyniad, cafodd Dr Chamberlain ei hanghymhwyso yn awtomatig o'i rolau yn SAC o 1 Ionawr 2024 ymlaen, a rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor hysbysiad ffurfiol o hyn iddi ar 15 Ebrill 2024.[222]

217. Er mwyn lleihau'r risg o'r sefyllfa hon yn codi eto, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Archwilydd Cyffredinol[223] ac aelodau anweithredol Bwrdd SAC, er mwyn:

- atgoffa'r aelodau anweithredol o ofynion Deddf 2013 a'r telerau a'r amodau penodi sy'n cyfyngu ar y rolau y gellir ymgymryd â hwy wrth wasanaethu ar Fwrdd SAC;
- gofyn am ddiweddaru'r broses gynefino a hyfforddi ar gyfer aelodau anweithredol, a ddarperir gan SAC, i bwysleisio'r gofynion ynghylch ymgymryd â rolau ychwanegol; a
- gofyn i unrhyw newidiadau a wneir i gofrestrau buddiannau aelodau anweithredol gael eu rhannu â Chlerc y Pwyllgor Cyllid.

218. Ymatebodd Archwilio Cymru ar 11 Mehefin 2024, gan dderbyn y gwelliannau gofynnwyd amdanynt a chroesawu'r nodyn atgoffa i aelodau anweithredol am eu hamodau penodi, a'r angen i hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau i ymrwymiadau presennol.[224]

219. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd barhau i roi arweiniad clir ar gymhwystra i ddarpar ymgeiswyr fel rhan o ymgyrchoedd recriwtio SAC, a hefyd cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy cyn penodi. Yn ogystal, gallai aelodau anweithredol ofyn am farn y Pwyllgor cyn ymgymryd â rolau eraill.

220. Trafododd y Pwyllgor yr opsiynau ar gyfer llenwi swydd y Cadeirydd wedi i Dr Chamberlain gael ei hanghymhwyso a chytunodd i benodi aelod anweithredol newydd fel rhan o'i ymgyrch recriwtio ym mis Mai 2024, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd SAC gyda chyn lleied o oedi â phosibl. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid penodi Dr Ian Rees yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, am gyfnod o bedair blynedd, sef yr hiraf a ganiateir.[225] Cymeradwyodd y Senedd y penodiad ar 12 Mehefin 2024.[226]

[222] Y Pwyllgor Cyllid, Penodi Aelodau Anweithredol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, Mai 2024, tudalennau 3-4
[223] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at yr Archwilydd Cyffredinol, 13 Mai 2024
[224] Llythyr gan Archwilio Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 11 Mehefin 2024
[225] Y Pwyllgor Cyllid, Penodi Aelodau Anweithredol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, Mai 2024, tudalen 7
[226] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024

Penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

221. Mae rôl yr Ombwdsmon yn benodiad y Goron a wneir ar sail enwebiad y Senedd o dan Atodlen 1 i Ddeddf 2019.[227]

222. Yn 2021-22, roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am gynghori'r Senedd ar benodi'r Ombwdsmon. Cwblhaodd yr Ombwdsmon blaenorol, Nick Bennett, ei dymor saith mlynedd yn y swydd ym mis Gorffennaf 2021 a pharhaodd i wasanaethu mewn rôl dros dro tan fis Mawrth 2022.[228]

223. Hysbysebwyd y rôl am gyfnod o bedair wythnos, rhwng 23 Medi a 22 Hydref 2021, gyda Penna, asiantaeth chwilio am staff gweithredol, yn cefnogi agweddau ar y broses recriwtio. Denodd y rôl 21 o ymgeiswyr; deg menyw ac un ar ddeg o ddynion. Cafodd wyth ymgeisydd eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad gan y panel. Roedd y panel yn cynnwys:

- Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (Cadeirydd y panel);
- Rhianon Passmore AS, Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus;
- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd; a
- Peter Tyndall, Ombwdsmon, Comisiynydd Gwybodaeth, a Chomisiynydd Gwybodaeth Amgylcheddol Iwerddon.

224. Gwnaeth y panel argymhelliad i'r Pwyllgor ar yr ymgeisydd yr oedd yn ei ffafrio ar gyfer yr enwebiad. Yna cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn-enwebu gyda'r ymgeisydd yr oedd yn ei ffafrio, gan ddod i'r casgliad bod Michelle Morris yn addas i'w henwebu i'w diweddar Mawrhydi, y Frenhines Elizabeth II, i gael ei phenodi'n Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.[229] Cytunodd y Senedd ar yr enwebiad ar 26 Ionawr 2022 a dechreuodd Michelle Morris yn y rôl ar 1 Ebrill 2022.[230]

225. Mae'r penodiad hwn ar gyfer un tymor o saith mlynedd nad oes modd ei adnewyddu yn y rôl, sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2029. Felly, bydd angen i bwyllgor cyfrifol y Seithfed Senedd gynghori'r Senedd ar benodi'r Ombwdsmon nesaf.

[227] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3)
[228] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021
[229] Enwebiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2022
[230] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 26 Ionawr 2022

Penodi'r Archwilydd Cyffredinol

226. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn benodiad y Goron a wneir ar sail enwebiad y Senedd o dan Adran 2 o Ddeddf 2013. Mae'r penodiad am gyfnod o wyth mlynedd, ac ni ellir adnewyddu'r penodiad.

227. Yn 2025-26, y Pwyllgor oedd yn gyfrifol am gynghori'r Senedd ar benodi'r Archwilydd Cyffredinol am yr ail waith o dan Ddeddf 2013. Roedd deiliad presennol y swydd, Adrian Crompton, wedi bod yn ddeiliad rôl yr Archwilydd Cyffredinol ers 21 Gorffennaf 2018 ac mae ei dymor yn y swydd yn dod i ben ar 20 Gorffennaf 2026.

228. Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid blaenorol yr argymhelliad canlynol yn ei adroddiad Gwaddol:

> *"**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried cyflogi ymgynghorydd recriwtio gyda rhwydweithiau eang o weithwyr proffesiynol, i gynorthwyo'r gwaith o gyrchu a nodi ymgeiswyr â chymwysterau addas i fodloni'r gofynion ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru."*[231]

229. Penododd y Pwyllgor, felly, asiantaeth chwilio weithredol, Saxton Bampfylde, i ymgymryd ag agweddau ar y broses recriwtio.

230. Hysbysebwyd y rôl am gyfnod o chwe wythnos, rhwng 19 Medi 2025 a 31 Hydref 2025. Cafwyd deuddeg cais gan ddwy fenyw a deg dyn. Cafodd pedwar ymgeisydd eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad gan y panel, gydag un ymgeisydd yn tynnu ei gais yn ôl cyn i'r cyfweliadau gael eu cynnal. Roedd y panel yn cynnwys:

- Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (Cadeirydd y panel);
- Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus;
- Dr Ian Rees, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru; a

[231] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad gwaddol y Bumed Senedd, Mawrth 2021, Argymhelliad 19

- Lynn Pamment CBE, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Jersey.

231. Gwnaeth y panel argymhelliad i'r Pwyllgor ar yr ymgeisydd yr oedd yn ei ffafrio ar gyfer yr enwebiad. Yna cynhaliodd y Pwyllgor, ar y cyd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, wrandawiad cyn-enwebu gyda'r ymgeisydd. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod yr ymgeisydd hwnnw yn addas i'w enwebu i'w Fawrhydi i gael ei benodi'n Archwilydd Cyffredinol.[232] Cytunodd y Senedd ar yr enwebiad ar 4 Mawrth 2026.[233] Bydd Catherine Mealing-Jones yn dechrau yn rôl yr Archwilydd Cyffredinol ar 21 Gorffennaf 2026.

232. Gan nad yw tymor swydd yr Archwilydd Cyffredinol newydd yn dod i ben tan 20 Gorffennaf 2034, nid oes disgwyl y bydd angen i bwyllgor cyfrifol y Seithfed Senedd gynghori'r Senedd ar benodi'r Archwilydd Cyffredinol nesaf.

Trefniadau Tâl

233. Roedd y Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am bennu tâl yr Archwilydd Cyffredinol ac unrhyw drefniadau codi cyflog, yn unol â gofynion Deddf 2013.

234. Wrth bennu'r trefniadau tâl ym mis Medi 2017 ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol presennol, cytunodd y Pwyllgor blaenorol i hysbysebu'r swydd gyda chyflog o £142,000, wedi'i addasu yn unol â threfniadau ar gyfer gwaelod band tâl Ysgrifennydd Parhaol, yn unol ag adroddiad blynyddol y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.

235. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2018, cafodd y Pwyllgor wybod bod y cyfrifoldeb am gynghori ar fand cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cael ei drosglwyddo wedyn o'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion i Bwyllgor Taliadau'r Ysgrifennydd Parhaol, sy'n cynghori Llywodraeth y DU. Gwnaed penderfyniadau ar addasiadau blynyddol i'r band cyflog gan y Prif Weinidog.[234]

236. Oherwydd y newidiadau hyn a wnaed gan Lywodraeth y DU, gwnaeth Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd yr argymhelliad canlynol yn ei Adroddiad Gwaddol yn ymwneud â thâl yr Archwilydd Cyffredinol nesaf:

> *"**Argymhelliad 20.** Wrth bennu'r trefniadau tâl ar gyfer penodiadau yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod*

[232] Y Pwyllgor Cyllid, Enwebu Archwilydd Cyffredinol Cymru, Chwefror 2026
[233] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 4 Mawrth 2026
[234] Cododd Llywodraeth y DU waelod band cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol o £142,000 i £150,000 ym mis Hydref 2017, gyda'r addasiad wedi'i ôl-ddyddio i fis Ebrill 2017.

pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn osgoi cysylltu tâl Archwilydd Cyffredinol Cymru â graddfa gyflog y cytunwyd arni gan gorff allanol."[235]

237. Cytunodd y Pwyllgor i hysbysebu'r swydd gyda chyflog o £165,871. Cytunodd hefyd y byddai'r cyflog yn cael ei gynyddu ar ddyddiad dechrau'r penodiad (21 Gorffennaf 2026), ac yn flynyddol ar y dyddiad hwnnw, yn ôl y newid canrannol amcangyfrifedig yn y data diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar yr enillion canolrifol gros blynyddol ar gyfer swyddi llawn amser yng Nghymru, fel y'u cyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn amodol ar derfyn isaf ac uchaf o 0 y cant a 3 y cant.

238. Yn yr un modd, cytunodd y Pwyllgor i hysbysebu rôl yr Ombwdsmon â chyflog o £147,000, wedi'i haddasu'n flynyddol gan y newid canrannol amcangyfrifedig yn y data diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer yr enillion canolrifol gros blynyddol ar gyfer swyddi llawn amser yng Nghymru fel y'u cyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gyda therfyn isaf ac uchaf o 0 y cant a 3 y cant.

Barn y Pwyllgor

239. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cyfrifoldeb sylweddol a roddwyd iddo i sicrhau bod penodiadau i'r SAC, yr Ombwdsmon a'r Archwilydd Cyffredinol yn cael eu cynnal drwy brosesau teg, tryloyw a thrylwyr. Drwy gydol y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â'r gwaith hwn yn ddiwyd, gan sicrhau bod pob ymarfer recriwtio wedi bod yn gadarn a bod yr ymgeiswyr a argymhellir i'r Senedd yn bodloni'r safonau uchel sy'n ofynnol ar gyfer y rolau annibynnol, statudol hyn. Mae'r Pwyllgor yn nodi pwysigrwydd ymgymryd ag ymarferion meincnodi wrth gytuno ar y cyflog cychwynnol a'r mecanweithiau cynyddu cyflog ar gyfer rolau'r Ombwdsmon a'r Archwilydd Cyffredinol, ac mae o'r farn y bydd defnyddio'r un mecanweithiau cynyddu cyflog ar gyfer y ddau yn gwarchod rhag bwlch yn datblygu rhwng y cyflogau mewn ffordd anfwriadol dros eu cyfnod yn y swydd.

240. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y defnydd o asiantaethau i chwilio am staff gweithredol yn ystod prosesau recriwtio wedi bod yn hynod werthfawr. Mae eu harbenigedd o ran nodi, annog ac asesu ymgeiswyr â chymwysterau priodol wedi cryfhau ansawdd rowndiau penodi ac wedi cyfrannu at sicrhau rhestr amrywiol a chystadleuol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y dull hwn yn cefnogi hyder y cyhoedd mewn annibyniaeth ac uniondeb y swyddi hyn.

[235] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad gwaddol y Bumed Senedd, Mawrth 2021, Argymhelliad 20

241. Mae'r Pwyllgor yn nodi nifer y penodiadau arfaethedig i Fwrdd SAC a wneir yn ystod y Seithfed Senedd, fel y nodir yn **Atodiad 4**. Mae'n bwysig bod y swyddi hyn yn parhau i ddenu ymgeiswyr o'r radd flaenaf o gefndiroedd amrywiol, gan sicrhau bod y rhai a benodir yn adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Rydym o'r farn, felly, y dylai'r pwyllgor olynol gymryd camau priodol i hyrwyddo a chefnogi'r amcan hwn.

Casgliad 3. Gan adeiladu ar brofiad y Pwyllgor o benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'r Pwyllgor o'r farn bod ymgysylltu ag asiantaeth chwilio am staff gweithredol yn ffordd briodol ac effeithiol o sicrhau proses recriwtio o safon.

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r pwyllgor olynol gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod y prosesau recriwtio ar gyfer penodiadau i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn y Seithfed Senedd yn parhau i ddenu ymgeiswyr o safon uchel o amrywiaeth o gefndiroedd.

242. Roedd y Pwyllgor yn siomedig o glywed am anghymhwysiad cyn Gadeirydd SAC, ar ôl iddi dderbyn penodiad y Goron a oedd yn anghydnaws ag aelodaeth o SAC. Er bod y sefyllfa hon yn deillio o amryfusedd yn hytrach na drwgweithred bwriadol, roedd serch hynny yn tynnu sylw at risgiau pwysig ynghylch ymwybyddiaeth o anghymwysiadau statudol a'r angen am fesurau diogelu cryfach.

243. Gweithredodd y Pwyllgor yn brydlon i liniaru'r risgiau hyn drwy anfon nodyn atgoffa at aelodau presennol nad ydynt yn rhai gweithredol, gan ofyn am welliannau i'r broses gynefino a hyfforddi, a chryfhau'r broses hysbysu ar gyfer unrhyw newidiadau i ymrwymiadau allanol. Croesawyd ymateb cadarnhaol Archwilio Cymru a'i ymrwymiad i weithredu'r gwelliannau y gofynnwyd amdanynt hefyd.

244. Yn ogystal â'r penodiadau yn y Senedd a amlinellir yn y bennod hon, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn penodi a chyhoeddodd adroddiad ar yr ymgeisydd yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio i'w benodi fel Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru ym mis Medi 2022.[236] Rydym o'r farn bod hwn yn brofiad gwerthfawr ac y dylid cynnal gwrandawiadau cyn penodi tebyg ar gyfer swyddi tebyg yn y dyfodol.

[236] Y Pwyllgor Cyllid, Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru, 26 Medi 2022

Argymhelliad 26. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol barhau i gynnal gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru pan fydd y penodiad nesaf yn digwydd.

7. Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid

245. Sefydlwyd y Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid (y Fforwm) ym mis Mehefin 2022 gyda'r prif bwrpas o gynnig llwyfan i Bwyllgorau Cyllid o Seneddau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i ystyried heriau cyffredin.[237]

246. Cynlluniwyd y Fforwm i ddarparu:

- mecanwaith mwy effeithiol ar gyfer deialog a chydweithrediad rhwng y Pwyllgorau ar faterion o fuddiant a phryder cyffredin;
- mwy o dryloywder ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol, gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid; yn ogystal â
- chyfle i ystyried unrhyw oblygiadau yn sgil proses gosod cyllideb Llywodraeth y DU a'i phenderfyniadau gwariant mewn meysydd datganoledig, ar ôl Brexit.[238]

Cyfarfodydd y Fforwm

247. Mae'r Fforwm wedi cyfarfod yn flynyddol ers ei ffurfio, gan gynnal y pedwar cyfarfod canlynol:

- 16 Mehefin 2022 (Senedd yr Alban)[239]
- 24 Mawrth 2023 (Senedd Cymru)[240]
- 21 Mawrth 2024 (Tŷ Portcullis, San Steffan)[241]
- 19 Mawrth 2025 (Cynulliad Gogledd Iwerddon)[242]

248. Yn dilyn pob cyfarfod cyhoeddwyd datganiad ar y cyd yn manylu ar y prif feysydd trafod. Roedd swyddogion o Bwyllgor Cyllid Cynulliad Gogledd Iwerddon yn bresennol yn y tri chyfarfod cyntaf fel arsylwyr a daethant yn aelodau llawn yn y pedwerydd cyfarfod yn sgil adfer y Weithrediaeth a'r Cynulliad.[243]

[237] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Chwefror 2026, paragraff 1
[238] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Chwefror 2026, paragraff 2
[239] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Datganiad ar y Cyd, 16 Mehefin 2022
[240] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Datganiad ar y Cyd, 24 Mawrth 2023
[241] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Datganiad ar y Cyd, 21 Mawrth 2024
[242] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Llythyr at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, 13 Mai 2025
[243] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Chwefror 2026, paragraff 5

Adroddiad Gwaddol

249. Cyhoeddodd y Fforwm ei Adroddiad Gwaddol ar 20 Chwefror 2026, cyn diddymiad y Senedd a Senedd yr Alban.[244] Tynnodd hyn sylw at waith y Fforwm, a gwnaeth achos dros barhau i'w gynnal. Nododd:

> *"Mae'r Fforwm yn rhoi cyfle Bwyllgorau Cyllid yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon godi llais ar y cyd ynghylch gwaith craffu ar wariant Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig. Mae'n caniatáu i Aelodau ar draws y tair deddfwrfa weithio gyda'i gilydd i rannu profiadau, gyda'r nod o wella craffu cyllidebol a chyllidol a thryloywder."*[245]

250. Daeth y Fforwm i'r casgliad bod ei waith yn darparu "dull hanfodol o gefnogi gwaith y Pwyllgorau Cyllid datganoledig", ei fod yn "llwyfan amhrisiadwy i'r Pwyllgorau rannu heriau cyffredin a chyfnewid gwybodaeth, a dylanwadu gyda'i gilydd ar y Trysorlys", ac y dylid ei "ailsefydlu cyn gynted â phosibl ar ôl ffurfio'r Pwyllgorau Cyllid datganoledig newydd".[246]

251. Roedd yr aelodau hefyd yn cydnabod y Fforwm fel "llwyfan ar gyfer cydweithio ar y rhaglen gynefino ar gyfer Aelodau newydd, yn enwedig mewn perthynas â llythrennedd cyllidol".[247]

252. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi anawsterau parhaus o ran sicrhau cytundeb Gweinidogion y DU i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.[248] Fodd bynnag, llwyddodd y Fforwm i sicrhau presenoldeb Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Darren Jones AS, yn y cyfarfod yn Stormont ar 19 Mawrth 2025. Er ei bod yn sesiwn fer, roedd hwn yn gam cadarnhaol i'w groesawu tuag at ailosod y berthynas rhwng Llywodraeth y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig.

253. Wrth i ddigwyddiadau cyllidol y DU barhau i darfu ar brosesau cyllidebol datganoledig, galwodd y Fforwm am fwy o sicrwydd ynghylch digwyddiadau cyllidol mawr, ac i wybodaeth gael ei rhannu'n gynharach er mwyn gwella tryloywder a chaniatáu digon o amser ar gyfer gwaith craffu.[249]

---

[244] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Ionawr 2026
[245] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Ionawr 2026, paragraff 29
[246] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Ionawr 2026, paragraffau 54-56
[247] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Ionawr 2026, paragraff 6
[248] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Ionawr 2026, paragraff 12
[249] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Ionawr 2026, paragraff 32

254. Wrth fyfyrio ar y materion hyn, daeth y Fforwm i'r casgliad y dylai barhau:

> *"... i ganolbwyntio ar rannu gwybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â digwyddiadau cyllidol a'r broses craffu ar y gyllideb, yn ogystal â gwella cyfathrebu rhwng y Trysorlys a'r Pwyllgorau datganoledig."*[250]

Barn y Pwyllgor

255. Mae'r Pwyllgor wedi canfod bod y Fforwm yn fecanwaith gwerthfawr ar gyfer archwilio a deall heriau a rennir ar draws cenhedloedd datganoledig y DU. Mae'r Pwyllgor yn llwyr gefnogi parhad a datblygiad pellach y Fforwm, ac yn ei gymeradwyo fel llwyfan effeithiol ar gyfer cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng y deddfwrfeydd datganoledig.

Argymhelliad 27. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ei bwyllgor olynol weithio gyda chymheiriaid yn y deddfwrfeydd datganoledig eraill i ailsefydlu Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid ac adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma.

[250] Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, Adroddiad Gwaddol, 20 Ionawr 2026, paragraff 57

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
Dydd Mercher 11 Chwefror 2026	**Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg** Llywodraeth Cymru **Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys** Llywodraeth Cymru
Dydd Mercher 25 Chwefror 2026	**Elin Jones AS, Llywydd** Comisiwn y Senedd **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd** Comisiwn y Senedd **Lisa Bowkett, Prif Swyddog Cyllid** Comisiwn y Senedd **Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau** Comisiwn y Senedd

Atodiad 2: Gwaith wedi'i gwblhau

Gellir gweld y gwaith wedi'i gwblhau ac adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cyllid drwy ddefnyddio'r lincs isod.

Craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru	Dyddiad
Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2021-22	Gorffennaf 2021
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23	Chwefror 2022
Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22	Mawrth 2022
Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23	Gorffennaf 2022
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24	Chwefror 2023
Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2022-23	Mawrth 2023
Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2023-24	Gorffennaf 2023
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25	Chwefror 2024
Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2023-24	Mawrth 2024
Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2024-25	Hydref 2024
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26	Chwefror 2025
Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2024-25	Mawrth 2025
Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2025-26	Gorffennaf 2025
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27	Rhagfyr 2025
Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2025-26	Mawrth 2026

Craffu ar Gyllidebau Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol	Dyddiad
Cyllideb Comisiwn y Senedd 2022-23	Hydref 2021
Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2022-23)	Tachwedd 2021
Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2022-23)	Tachwedd 2021

Craffu ar Gyllidebau Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol	Dyddiad
Cyllideb Comisiwn y Senedd 2023-24	Hydref 2022
Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2023-24)	Tachwedd 2022
Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2023-24)	Tachwedd 2022
Cyllideb Comisiwn y Senedd 2024-25	Hydref 2023
Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2024-25)	Tachwedd 2023
Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2024-25)	Tachwedd 2023
Cyllideb Comisiwn y Senedd 2025-26	Hydref 2024
Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2025-26)	Tachwedd 2024
Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2025-26)	Tachwedd 2024
Cyllideb Comisiwn y Senedd 2026-27	Hydref 2025
Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2026-27)	Tachwedd 2025
Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (gan gynnwys Amcangyfrif 2026-27)	Tachwedd 2025

Deddfwriaeth	Dyddiad
Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)	Medi 2022
Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)	Mawrth 2025

Goblygiadau Ariannol Biliau	Dyddiad
Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)	Mawrth 2022
Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)	Hydref 2022

Goblygiadau Ariannol Biliau	Dyddiad
Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru)	Tachwedd 2022
Bil Amaethyddiaeth (Cymru)	Ionawr 2023
Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)	Ebrill 2023
Bil Bwyd (Cymru)	Mai 2023
Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)	Gorffennaf 2023
Bil Seilwaith (Cymru)	Tachwedd 2023
Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)	Ionawr 2024
Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)	Ionawr 2024
Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)	Mawrth 2024
Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)	Mawrth 2024
Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)	Hydref 2024
Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)	Ar ôl ystyried ymateb y Cwnsler Cyffredinol i lythyr y Pwyllgor, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.
Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)	Rhagfyr 2024
Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)	Ebrill 2025
Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)	Gorffennaf 2025
Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)	Hydref 2025
Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)	Hydref 2025
Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)	Tachwedd 2025
Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)	Tachwedd 2025
Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)	Rhagfyr 2025
Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)	Rhagfyr 2025

Polisi	Dyddiad
Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE	Hydref 2022
Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol	Hydref 2024
Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Tachwedd 2024
Cyfalaf Trafodiadau Ariannol	Tachwedd 2024
Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019	Hydref 2025

Penodiadau	Dyddiad
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Ionawr 2022
Gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru	Medi 2022
Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru	Ionawr 2023
Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru	Mai 2024
Penodi Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru	Mai 2025
Enwebu Archwilydd Cyffredinol Cymru	Chwefror 2026

Offerynnau Statudol	Dyddiad
Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021	Ionawr 2022
Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022	Hydref 2022
Rheoliadau Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (Estyn Dyddiad Dod i Ben) 2026	Mawrth 2026

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol	Dyddiad
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU	Hydref 2022

Atodiad 3: Penodiadau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru y Chweched Senedd

	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Lindsay Foyster (Cadeirydd)		Daeth yr ail dymor i ben (15 Mawrth 2023)			
Dr Kate Chamberlain (Cadeirydd)		Penodwyd yn Gadeirydd am bedair blynedd (16 Mawrth 2023)	Wedi'i anghymhwyso (1 Ionawr 2024)		
Dr Ian Rees (Cadeirydd)				Ailbenodwyd a phenodwyd yn Gadeirydd (12 Mehefin 2024)	
Alison Gerrard	Ailbenodwyd am bedair blynedd gan y Bumed Senedd (1 Gorffennaf 2021)				Daeth yr ail dymor i ben (30 Mehefin 2025)
David Francis		Ailbenodwyd am bedair blynedd (16 Mawrth 2023)			

	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Elinor Gwynn				Ymddiswyddodd (31 Mai 2024)	
Richard Thurston				Penodwyd am bedair blynedd (1 Mehefin 2024)	
Mike Norman				Penodwyd am bedair blynedd (1 Mehefin 2024)	
Bethan Jones					Penodwyd am bedair blynedd (1 Gorffennaf 2025)

Atodiad 4: Swyddi gwag a ddisgwylir ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn y Seithfed Senedd

	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30
Dr Ian Rees (Cadeirydd) Ailbenodwyd 12 Mehefin 2024		Ail dymor yn dod i ben (11 Mehefin 2028)		
David Francis Ailbenodwyd 16 Mawrth 2023	Ail dymor yn dod i ben (15 Mawrth 2027)			
Richard Thurston Penodwyd 1 Mehefin 2024			Tymor cyntaf yn dod i ben (31 Mai 2028)	
Mike Norman Penodwyd 1 Mehefin 2024			Tymor cyntaf yn dod i ben (31 Mai 2028)	
Bethan Jones Penodwyd 1 Gorffennaf 2025				Tymor cyntaf yn dod i ben (30 Mehefin 2029)